------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Medi 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (gwiriwch a fydd ei angen)

(09.15 - 09.30)

**Fel y cytunwyd yn y cyfarfod ar 18 Gorffennaf, mae eitemau 1 a 2 yn breifat.**

## 1 Papur briffio technegol ar yr Adolygiad Annibynnol o Dâl ac Amodau Athrawon

(09.30 - 10.00)

## 2 Briff technegol ar y Papur Gwyn ar ddiwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

(10.00 - 10.45) (Tudalennau 1 - 6)

**Dogfennau atodol:**

Briff technegol

## Egwyl

(10.45 - 11.00)

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11.00)

## 4 Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach - sesiwn dystiolaeth 4

(11.00 - 12.15) (Tudalennau 7 - 42)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp SAUDGO

Marie Knox, Dirprwy Gyfarwyddwr Pontio Ewropeaidd

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

CYPE(5)-24-18 - Papur 1 - Llywodraeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

(12.15)

### 5.1 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Camau yn codi o'r cyfarfod ar 28 Mehefin

(Tudalennau 43 - 46)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 1

### 5.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 28 Mehefin

(Tudalennau 47 - 53)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 2

### 5.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

(Tudalennau 54 - 56)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 3

### 5.4 Llythyr oddi wrth y Llywydd - Mentrau Senedd@

(Tudalen 57)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 – Papur i'w nodi 4

**5.5 Llythyr at y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd**

(Tudalennau 58 - 59)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 – Papur i'w nodi 5

**5.6 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd**

(Tudalennau 60 - 62)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 – Papur i'w nodi 6

**5.7 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y ddadl ar adroddiad y pwyllgor 'Cadernid Meddwl'**

(Tudalennau 63 - 64)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 – Papur i'w nodi 7

**5.8 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol**

(Tudalennau 65 - 66)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 – Papur i'w nodi 8

**5.9 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol**

(Tudalennau 67 - 68)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 – Papur i'w nodi 9

**5.10 Llythyr gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol – sylwadau ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor 'Cadernid Meddwl'**

(Tudalennau 69 - 74)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 10 (Saesneg yn unig)

**5.11 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Dilyniant i'r Gwaith Ieuenctid**

(Tudalennau 75 - 77)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 11

**5.12 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

(Tudalennau 78 - 91)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 12

**5.13 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

(Tudalennau 92 - 99)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 13

**5.14 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - sesiwn graffu gyffredinol ar 10 Hydref 2018**

(Tudalennau 100 - 102)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 14

**5.15 Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach - Rhagor o wybodaeth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn dilyn y cyfarfod ar 18 Gorffennaf**

(Tudalennau 103 - 105)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 15 (Saesneg yn unig)

**5.16 Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach - Rhagor o wybodaeth gan Brifysgol Caerdydd yn dilyn y cyfarfod ar 12 Gorffennaf**

(Tudalennau 106 - 107)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 16

**5.17 Llythyr oddi wrth Iechyd Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn dilyn y sesiwn graffu ar 5 Gorffennaf**

(Tudalen 108)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 17

**5.18 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Meini prawf cymhwysedd diwygiedig i brydau ysgol am ddim yng Nghymru oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol**

(Tudalen 109)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-24-18 - Papur i'w nodi 18 (Saesneg yn unig)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(12.15)

## 7 Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach - ystyried y dystiolaeth

(12.15 - 12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/3043/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

6 Medi 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich gwahoddiad i ddod i'r Pwyllgor fel rhan o'i ymchwiliad i "ddull Llywodraeth Cymru o baratoi ar gyfer Brexit mewn cysylltiad â'r sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru." Mae'r llythyr hwn yn ymateb i'ch cais am wybodaeth cyn y sesiwn ar 20 Medi. Amgaeir trosolwg o bolisi Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â threfniadau pontio Ewropeaidd ac Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at drafod y pwnc hwn yn fwy manwl gyda'r Pwyllgor ar 20 Medi.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

**PAPUR TYSTIOLAETH LLYWODRAETH CYMRU – YMCHWILIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG I EFFAITH BREXIT AR ADDYSG UWCH AC ADDYSG BELLACH YNG NGHYMRU**

## Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru

Mae'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi, cyfiawnder cymdeithasol, gwasanaethau cyhoeddus a diwylliant yng Nghymru ac i amcanion Llywodraeth Cymru drwy ddarparu addysg, hyfforddiant, ymchwil, arloesedd ac ymgysylltu o safon uchel. Mae trosiant y ddau sector yn £1.5 biliwn o ran AU[1] a £0.5 biliwn o ran AB ac maent yn cyflogi tua 29,000 o staff cyfwerth ag amser llawn (21,000 AU[2] ac 8,000 AB). O ran canlyniadau, mae dros 40,000 o fyfyrwyr yn graddio o AU bob blwyddyn ac o ran AB, cafodd 194,000 o weithgareddau dysgu eu cwblhau gan 111,000 o ddysgwyr (blwyddyn academaidd 2016/17).

Mae addysg uwch yn sector cystadleuol yn fyd-eang. Er mwyn osgoi tanseilio gallu ein sefydliadau i gystadlu ar y lefel, mae'n hanfodol bod prifysgolion Cymru yn parhau i allu recriwtio talent ryngwladol o'r UE a thu hwnt, cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a rhwydweithiau ymchwil rhyngwladol ar y cyd, cynnig cymwysterau a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol a denu myfyrwyr o'r UE a gweddill y byd.

Er bod Addysg Bellach yn dueddol o weithredu mewn marchnad sy'n fwy lleol, mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o opsiynau hyfforddi academaidd a galwedigaethol. Addysg Bellach, os caiff ei darparu mewn ysgolion neu golegau, sy'n allweddol i lwyddiant y genedl yn y dyfodol. Mae'n galluogi dilyniant i ddysgu ar lefel uwch (yn aml mewn partneriaeth â phrifysgolion); mae'n cynnal yr economi sylfaenol; mae'n galluogi oedolion i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd; mae'n cynorthwyo cynhwysiant cymunedol drwy ddarparu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill; mae'n helpu cyflogwyr i wella sgiliau eu gweithlu ac yn hwyluso darparu gwasanaethau cymdeithasol a chyhoeddus pwysig. Mae'r darpariaethau yn dueddol o gyd-fynd â'r ardal economaidd y mae pob coleg yn gweithredu ynddi a chaiff dysgu yn y gwaith ei gefnogi gan ein rhaglen brentisiaeth flaengar, a gaiff ei chyllido'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn gysylltiedig â nifer o fanteision ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynediad i waith ymchwil cydweithredol rhyngwladol a chefnogaeth iddo;
- mynediad i drefniadau symudedd rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr a staff a chefnogaeth iddo;
- trefniadau rhyddid i symud sy'n helpu i hwyluso'r gwaith o recriwtio staff arbenigol rhyngwladol o'r tu mewn i'r UE;
- denu myfyrwyr drwy gynnig cymwysterau proffesiynol a gaiff eu cyd-gydnabod yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, a darparu cronfa dalent ar gyfer economi'r DU; a
- buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol mewn seilwaith ac adeiladu capasiti, ac i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau.

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Staff-and-Finance/financeofheis-by-category-year

[2] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Staff-and-Finance/staffatwelshheis-by-gender-institution-year-modeofemployment

**Dull Llywodraeth Cymru o baratoi ar gyfer Brexit**

Yn dilyn Refferendwm mis Mehefin 2016, canfu Llywodraeth Cymru yn gyflym y byddai gan ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd oblygiadau sylweddol i'r sector addysg uwch yn benodol, a chymerwyd y camau a ganlyn:

- ar 5 Gorffennaf 2016, fel Ysgrifennydd y Cabinet gwneuthum ddatganiad a oedd yn cyfleu yn glir bod croeso i fyfyrwyr a staff rhyngwladol o bob cwr o'r Undeb Ewropeaidd ym mhrifysgolion Cymru;
- ym mis Medi 2016, fel Ysgrifennydd y Cabinet sefydlais Weithgor Brexit Addysg Uwch i gydgysylltu gwybodaeth a darparu cyngor i'r llywodraeth ar effaith tymor byr a hirdymor penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd ar brifysgolion Cymru;
- ym mis Tachwedd 2016, gwnaeth y Prif Weinidog araith ym Mhrifysgol Bangor yn dwyn y teitl: "Our Universities: Wales Bridge to the World" yn tynnu sylw at bwysigrwydd ein myfyrwyr rhyngwladol, cydweithrediadau ymchwil rhyngwladol, Cronfeydd Strwythurol a manteision Erasmus+ a nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit mewn cysylltiad ag addysg uwch;
- ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn ar Brexit, *"Diogelu Dyfodol Cymru",* a oedd yn cynnwys archwiliad o effaith ymadael â'r UE ar addysg uwch ac yn nodi ein prif ofynion o ran Llywodraeth y DU a'i dull o ymdrin â Brexit (gweler isod) fel yr amlinellir yn araith y Prif Weinidog;
- Yn dilyn Adolygiad Hazelkorn, cafodd yr Athro Graeme Reid o Goleg Prifysgol Llundain ei gomisiynu i gynnal adolygiad o arian y llywodraeth i ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn edrych ar sut y gellir cynnal cystadleurwydd Cymru, ar ôl Brexit, drwy sicrhau mwy o gyllid gan gyrff ariannu ymchwil newydd y DU;
- Ar 8 Ionawr 2018, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Cronfa Bontio Ewropeaidd yn cael ei datblygu i gefnogi gwaith i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus Cymru i gynllunio a pharatoi at Brexit;
- Rwyf wedi darparu £6.241 miliwn o gyllid ychwanegol i CCAUC i alluogi'r Cyngor i ymdrin ag unrhyw oblygiadau byrdymor sy'n deillio o newidiadau demograffig a goblygiadau cychwynnol trefniadau pontio'r UE
- Ar 12 Gorffennaf 2018, fel Ysgrifennydd y Cabinet roeddwn yn falch o gyhoeddi cyllid o £3.5 miliwn dros dair blynedd ar gyfer menter Cymru Fyd-eang er mwyn cefnogi cynnydd sylweddol yng nghwmpas a chyrhaeddiad y rhaglen i gyflwyno'r brand Study in Wales yn fyd-eang, datblygu gweithgarwch presennol yn yr Unol Daleithiau a Fietnam, ac ymestyn i farchnadoedd eraill.

Drwy gydol y cyfnod ers y refferendwm, mae fy swyddogion wedi cwrdd yn rheolaidd â rhanddeiliaid drwy Weithgor Brexit AU er mwyn sicrhau bod rhywun yn gwrando ar eu pryderon, ac wedi parhau i geisio gweithio'n agos â'u cymheiriaid yn Whitehall i bwysleisio'r achos dros flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*.

Mae *Diogelu Dyfodol Cymru* yn nodi gofynion Llywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU yn benodol o ran effeithiau Brexit ar addysg uwch, fel a ganlyn:

- Parhau â'r ymgysylltiad yn Horizon 2020 a chynlluniau ymchwil eraill a gaiff eu harwain gan yr UE;
- Trefniadau dwyochrog ynghylch ffioedd dysgu myfyrwyr fel y gall myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn yr UE dalu lefelau ffioedd myfyrwyr lleol ac y gall myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru gael eu trin fel myfyrwyr y DU at ddibenion ffioedd a chostau astudio;
- Parhau i gymryd rhan yng nghynllun Erasmus+ ar gyfer cyfnewid staff a myfyrwyr;

- Gwarantau ynghylch statws fisa a dinasyddiaeth gwladolion yr UE sy'n gweithio ym mhrifysgolion y DU;
- Peidio â chynnwys myfyrwyr yn yr ystadegau ymfudo cenedlaethol;
- Cyfranogiad gan brifysgolion Cymru yn y cynllun fisa gwaith ar ôl astudio a gaiff ei dreialu ar hyn o bryd gan bedair prifysgol yn Lloegr; a
- Hyrwyddo mwy o symudedd tuag allan gan fyfyrwyr a staff sy'n astudio ac yn gweithio ym mhrifysgolion Cymru.

Eglurodd y Papur Gwyn hefyd bod yn rhaid ail-addasu gwaelodlin taliad y Grant Bloc ar gyfer Cymru, wrth adael yr UE, er mwyn ystyried y cyllid y byddai Cymru wedi disgwyl ei gael yn rhesymol fel arall o ffynonellau'r UE. Tynnodd y Papur Gwyn sylw at y cyfraniad y mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r Gronfa Fuddsoddi yn ei wneud o ran hybu ymchwil ac arloesi, a gwella sgiliau, a phwysleisiodd fod datblygu economaidd rhanbarthol yn faes polisi sydd wedi ei ddatganoli, gan wrthod yn llwyr unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ymyrryd yn y maes cymhwysedd datganoledig hwn. O ran gweithlu a sgiliau, roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod nifer o sectorau yn economi Cymru yn dibynnu ar sgiliau mewnfudwyr o'r UE.

Yn dilyn cyhoeddi "*Diogelu Dyfodol* Cymru", mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wneud ei safbwynt yn glir o ran blaenoriaethau ar gyfer diogelu sefyllfa Cymru wrth i Lywodraeth y DU barhau i drafod ymadael â'r UE ac mae wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau polisi yn mynd i'r afael â sefyllfa'r DU yn y dyfodol o ran materion strategol a materion trawsbleidiol yn ymwneud â Brexit, gan gynnwys:

- Brexit a Datganoli - Mehefin 2017
- Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl - Medi 2017
- Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit – Rhagfyr 2017
- Y Polisi Masnach: Materion Cymru – Chwefror 2018
- Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit – Gorffennaf 2018

Roedd *Tegwch o ran Symudiad Pobl* yn tynnu sylw at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran addysg uwch a myfyrwyr rhyngwladol mewn cysylltiad â pholisi ymfudo'r DU ac yn dadansoddi, hefyd, effaith bosibl Brexit ar y gweithlu a sgiliau.

Roedd *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit* yn trafod cymorth ariannol rhaglenni'r UE ar gyfer gwaith ymchwil rhyngwladol a symudedd ac yn ategu'r dymuniad i gyfranogi yn rhaglenni dilynol Horizon 2020 ac Erasmus+ ar ôl Brexit. Roedd hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd Cronfeydd Strwythurol o ran cynorthwyo i sicrhau yr un cyfle i bawb yn y DU a mynd i'r afael â'r llif anghymesur o gronfeydd ymchwil cystadleuol yn y DU i sefydliadau yn ne Lloegr, drwy adeiladu'r capasiti sydd ei angen i gefnogi prifysgolion sy'n gwneud ceisiadau am gronfeydd ymchwil cystadleuol.

Eto, mae *Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit* yn pwysleisio y dylai cyllid yr UE a gaiff ei wario yng Nghymru ar hyn o bryd gael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru heb i Lywodraeth y DU gadw dim yn ôl na thorri dim oddi arno a bod angen i addysg uwch yng Nghymru hefyd barhau i gael gafael ar ffynonellau ehangach o gronfeydd a chyfleoedd yr UE a gaiff eu darparu ar hyn o bryd gan gynlluniau'r UE. Mae'r papur yn cydnabod, hefyd, bod rhai meysydd pwysig o ran rhyng-ddibyniaeth rhwng materion sydd wedi eu datganoli a materion eraill, ac mae Llywodraeth Cymru, o ran y materion hyn, yn fodlon gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill mewn ysbryd cydweithio agored er budd rhannu canlyniadau. O ran addysg uwch, mae'r papur yn nodi bod angen i sefydliadau ledled y DU gydweithio i elwa ar y cyfleoedd sydd ar gael i ymchwilio ar y cyd ac arloesi er mwyn hyrwyddo Cymru a'r DU fel lle gwych i astudio ac ymchwilio.

**Camau Llywodraeth y DU ar Flaenoriaethau Brexit Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau sy'n berthnasol i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran Brexit ac addysg uwch a sgiliau ac, yn y rhan fwyaf ohonynt, rydym wedi gweld symudiad tuag at safbwynt Llywodraeth Cymru.

Rwy'n falch o ddweud bod y Swyddfa Gartref, yn dilyn fy nghais fel Ysgrifennydd y Cabinet, wedi cadarnhau ar 18 Rhagfyr 2017, y bydd y cynllun peilot fisa gweithio ar ôl astudio yn cael ei ehangu i ddwy brifysgol yng Nghymru, sef Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant (campws Abertawe). Hoffwn weld hyn yn cael ei ehangu i bob sefydliad yng Nghymru.

Mae Cytundeb drafft y DU – Ymadael â'r UE yn golygu y gall dinasyddion yr UE a gyflogir yn y sectorau AU ac AB yng Nghymru cyn y "dyddiad penodedig" – fel dinasyddion eraill yr UE sy'n byw yng Nghymru – wneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog, ynghyd â'u teuluoedd, o dan y cynllun a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Mehefin 2018. Mae'r cynllun wedi'i gysylltu â chasgliadau llwyddiannus y trafodaethau am y Cytundeb Ymadael. Byddwn yn parhau i bwyso am ddiogelu hawliau dinasyddion y DU sy'n byw yng Nghymru.

Mae trefniadau cyllid myfyrwyr yr UE wedi cael eu cadarnhau tan flwyddyn academaidd 2019/20, pa un a yw'r Cytundeb Ymadael wedi dod i ben ai peidio. Mae angen cadarnhau'r sefyllfa o ran blwyddyn academaidd 2020/21 cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi sicrwydd i fyfyrwyr a sefydliadau ac, ar yr hwyraf, erbyn haf 2019 os oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Mae'r Sefydliadau AU ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi mynegi pryder am oedi ar ran Llywodraeth y DU yn y gorffennol o ran cyhoeddi penderfyniadau ynghylch cyllid myfyrwyr yr UE. Rwyf yn rhannu eu pryderon ac yn annog Llywodraeth y DU i symud yn gyflym i gynllunio ar gyfer 2020/21 a rhannu ei syniadau gyda ni yn llawn.

Bydd trefniadau ôl-Brexit o ran ffioedd dysgu a chyllid ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar gyfer y myfyrwyr hynny o'r UE a ddaw i Gymru ar ôl y "dyddiad penodedig" yn dibynnu ar natur Perthynas Economaidd y Dyfodol y bydd yr UE wedi ei thrafod gyda Llywodraeth y DU. Mae'r Swyddfa Gartref wedi comisiynu'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo i adolygu effaith myfyrwyr rhyngwladol ar y DU a chyflwyno adroddiad erbyn mis Medi 2018. Yn y cyfamser, mae'r Llywodraeth wedi datgan nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i symud myfyrwyr rhyngwladol o'r targed ymfudo net ac nad oes ganddi chwaith unrhyw gynlluniau i gyfyngu ar allu unrhyw sefydliad i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.

O dan Gytundeb Ymadael yr UE-DU, bydd sefydliadau yng Nghymru yn parhau i allu cymryd rhan yn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Horizon 2020, ac Erasmus+ fel y maent yn ei wneud nawr, tan ddiwedd y rhaglenni presennol ym mis Rhagfyr 2020. Pe na bai bargen yn cael ei tharo, byddai gwarant Llywodraeth y DU i dalu unrhyw arian, yn berthnasol i unrhyw brosiectau a gaiff eu cymeradwyo cyn 2020.

Bydd unrhyw gyfranogiad yn y cynlluniau Horizon Europe ac Erasmus o fis Ionawr 2021 yn dibynnu ar Berthynas Economaidd y Dyfodol gyda'r UE, a bod Llywodraeth y DU yn sicrhau cyfranogiad Trydydd Gwlad yn y rhaglenni hyn ar ran y DU. Yn ei Phapur Gwyn ym mis Gorffennaf 2018, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn agored i archwilio cyfranogiad yn y cynllun a fydd yn dilyn Erasmus a'i bod yn dymuno archwilio cyswllt mewn rhaglenni ymchwil ac arloesol, gan gynnwys Horizon Europe.

Rydym yn croesawu'r diddordeb y mae Llywodraeth y DU wedi ei fynegi mewn cymryd rhan yn y dyfodol yn Horizon Europe ac Erasmus ac rwyf yn gobeithio am gyfranogiad llawn i'r

Gweinyddiaethau Datganoledig yn y trafodaethau hyn. Rydym hefyd yn croesawu'r uchelgais sydd rhwng Llywodraeth y DU a'r UE am gytundeb yn y dyfodol ar gyfer Cydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol, a fydd yn ychwanegu at allu'r sectorau AU ac AB i ddenu myfyrwyr rhyngwladol.

**Polisi Llywodraeth Cymru o ran Addysg Uwch ac Addysg Bellach**

Rydym am greu cymdeithas ffyniannus a theg lle mae busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn anelu bob amser at greu cynnyrch, gwasanaethau a ffyrdd newydd o helpu pobl i gael yr hyn sydd ei angen arnynt a'r hyn yr hoffent eu cael. Yr hyn sy'n llywio'r twf economaidd a'r cynnydd cymdeithasol hwn yw ymchwil, arloesi a datblygu'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Mae ein prifysgolion a'n colegau yn ddulliau hanfodol ar gyfer y ffyniant a'r twf hwn. Mae hefyd yn hanfodol y gall y sectorau AU ac AB wneud cyfraniad sylweddol i allu a gwydnwch ein gwlad i allu ymdopi â'r heriau sy'n wynebu Cymru o ganlyniad i newidiadau demograffig, technolegol ac amgylcheddol a pholisïau cyni Llywodraeth y DU, a'u bod yn gwneud y cyfraniad hwnnw. Mae'n amlwg y bydd Brexit yn ychwanegu at yr heriau sy'n wynebu Cymru ac y bydd hefyd yn effeithio ar allu'r sectorau AU ac AB i ymateb iddynt.

Fy mlaenoriaeth i fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yw:

- Sicrhau bod ein diwygiadau i gyllid myfyrwyr ac AU yn sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran darparu system deg o gymorth i fyfyrwyr, beth bynnag fo'u dull dewisol o astudio, ynghyd â system gynaliadwy o gyllido ar gyfer addysg uwch. Mewn cyfnod o newidiadau economaidd dwys a thwf cynhyrchiant gwastad, ni allwn fforddio rhoi rhwystrau diangen o flaen y rhai sydd am wella neu adnewyddu eu sgiliau ond na allant astudio yn llawn amser.

- Mae sefydlu Comisiwn newydd i oruchwylio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-addysg orfodol yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth. Er mwyn cefnogi amcanion *Ffyniant i Bawb* a'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi,* mae angen i'r system addysg a hyfforddi ôl-addysg orfodol fod yn fwy cydgysylltiedig a chanolbwyntio ar anghenion lleol a rhanbarthol dysgwyr a busnesau. Bydd gan y Comisiwn y potensial i lywio ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan ddwyn darparwyr addysg a hyfforddiant ynghyd gyda chefnogaeth dulliau cynllunio strategol ac ariannu mwy cadarn, systemau perfformio ac atebolrwydd cryfach a threfniadau gwella safonol a fydd yn galluogi Cymru i feincnodi a dysgu gan y gorau'n fyd-eang.

Mae blaenoriaethau Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn cynnwys:

- Cyflawni'r Cynllun Cyflogadwyedd. Mae'r cynllun trawslywodraethol hwn a gaiff ei gyllido'n rhannol gan yr UE yn amlinellu targedau uchelgeisiol ar gyfer lefelau cyflogaeth a sgiliau gan wneud cysylltiadau â meysydd polisi sy'n effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth, megis iechyd, tai, trafnidiaeth a gofal. Mae'r cynllun yn cynnwys pedwar thema: darparu dull unigol o gymorth tuag at gyflogaeth; tanlinellu cyfrifoldeb cyflogwyr i wella sgiliau eu gweithwyr a darparu gwaith teg; ymateb i fylchau presennol mewn sgiliau a bylchau a ragwelir; a pharatoi at newid mawr ym myd gwaith.

- Bodloni ein hymrwymiad i ddarparu 100,000 o brentisiaethau safonol ar gyfer pob oedran, wedi'u halinio ag anghenion yr economi. Bydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar sectorau cenedlaethol a sylfaenol ac yn blaenoriaethu hyfforddi pobl ifanc a phobl sydd mewn swyddi newydd. Bydd mwy o ganolbwyntio ar brentisiaethau lefel uwch, gan gynnwys prentisiaethau gradd, yn arbennig mewn

swyddi gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. O ran darpariaeth mewn lefelau is, disgwyliaf i brentisiaid gael y cyfle i ddatblygu i lefelau uwch a swyddi sy'n talu'n well. Byddwn yn dal gafael ar yr ymrwymiad i ddarparu sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cefnogi'r targed o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Caiff elfennau o'r rhaglen hon eu cyllido gan yr UE (ac felly mae cyllid yr UE yn cyfrannu at gyrraedd y targed prentisiaethau) ac mae'r sector AB ac AU yn darparu cyfleoedd dysgu sylweddol.

- Cefnogi'r sector AB i gynnal yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a gaiff eu hariannu ar hyn o bryd gan yr UE. Dywed ColegauCymru bod y sector wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddarparu prosiectau gyda gwerth bron i £600 miliwn dros y 10 mlynedd diwethaf - sy'n cynnwys cronfeydd yr UE ac arian cyfatebol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys: darparu hyfforddiant cyflogwr, gyda chymhorthdal i gyflogwyr, er mwyn cynnal swyddi a thwf; helpu pobl ifanc sy'n wynebu'r risg o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; cynnig hyfforddiant sgiliau gwledig; a rhoi cyfle i ddysgwyr ennill profiad gwaith neu ddysgu dramor. Dywed y sector bod y prosiectau hyn wedi cynorthwyo 81,000 o bobl i mewn i waith ac wedi cefnogi 282,000 o bobl i ennill cymwysterau ac, felly, wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae cronfeydd strwythurol y DU wedi cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith hefyd.

Bydd LIywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i weithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth iddi lunio manylion y dull arfaethedig o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Drwy e-bost

6 Gorffennaf 2018

Annwyl Kirsty

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2018. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor fod y sesiwn yn un diddorol a defnyddiol wrth inni graffu ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru mewn sawl maes polisi, gan gynnwys ambell un o'r deg o flaenoriaethau o ran addysg a gytunwyd gennych chi a'r Prif Weinidog ym mis Mehefin 2016.

Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor ofyn am ragor o wybodaeth am rai meysydd a drafodwyd yn y cyfarfod, gan ofyn ichi gadarnhau rhai eitemau y gwnaethoch gytuno i'w darparu i ni.

**Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Fel y byddwch yn gwybod o'r ymchwiliad i'r *Grant gwella addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig*, mae'r Pwyllgor wedi pwysleisio pwysigrwydd cefnogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr oherwydd, yn achos dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn benodol, maent yn grwpiau difreintiedig iawn sydd â lefel gymharol isel o gyrhaeddiad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyrannu £8.5 miliwn o arian pontio i gefnogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr i liniaru effaith tynnu



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

£13.1 miliwn o'r Grant Gwella Addysg yn 2018-19. Rydych wedi dweud mai eich bwriad yw darparu £8.7 miliwn o arian pontio ychwanegol yn 2019-20.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr angen i Lywodraeth Cymru wneud hyn, ar ôl dileu'r cyllid yn wreiddiol i sicrhau bod adnoddau ar gael o fewn y Setliad Llywodraeth Leol i ddiogelu cyllidebau ysgolion, yn dangos diffygion sylweddol y penderfyniad gwreiddiol. Mae gan y Pwyllgor yr un pryderon yn achos dileu'r Grant Gwisg Ysgol gwerth £700,000 a'i ddisodli'n hwyrach â Chronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n werth £1.7 miliwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai wedi bod yn well defnyddio arian o'r cronfeydd wrthgefn ar y cychwyn i ychwanegu at gyllid llywodraeth leol ar gyfer ysgolion, yn hytrach na chymryd arian o grantiau addysg ac yna defnyddio'r cronfeydd wrthgefn i adfer y grantiau hyn.

Dim ond £5 miliwn o'r arian pontio gwerth £8.7 miliwn ar gyfer 2018-19 oedd wedi'i nodi yng Nghyllideb Atodol 2018-19, a gyhoeddwyd ar 19 Mehefin 2018. Gwnaethoch gadarnhau y bydd y £3.7 miliwn sy'n weddill yn cael ei nodi yn yr ail Gyllideb Atodol, ac y bydd yr arian hwn naill ai'n dod o'r prif grŵp gwariant Addysg neu o'r cronfeydd wrthgefn canolog.

Yn ystod y cyfarfod ar 28 Mehefin 2018, gwnaethoch gytuno i ddarparu:

- Copïau o unrhyw asesiadau o effaith, gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, a gynhelir mewn perthynas â phenderfyniadau i newid y ffordd y rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr;
- Nodyn ar sefyllfa gwasanaethau addysg i Deithwyr ledled Cymru; er enghraifft, newidiadau yn niferoedd staff a chyllid awdurdodau lleol ar gyfer y gwasanaethau hyn.

**Maint dosbarthiadau babanod**

Yn ystod y drafodaeth ar eich blaenoriaeth o leihau maint dosbarthiadau babanod, gwnaethoch gytuno i ddarparu:

- Nodyn ar yr achosion busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer yr elfen Refeniw gwerth £16 miliwn o'r cyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd;
- Nodyn ar y dadansoddiad o'r elfen Gyfalaf gwerth £20 miliwn o'r cyllid a ddyrannwyd;
- Nodyn ar delerau ac amodau elfennau Refeniw a Chyfalaf y cyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod;
- Ffigurau yn dangos faint o ddosbarthiadau babanod sy'n cynnwys mwy na 25 o ddisgyblion ar hyn o bryd, faint o ddisgyblion sydd yn y dosbarthiadau hyn a'r sefyllfa gyfatebol ar ôl i gyfnod y polisi hwn ddod i ben (diwedd tymor y Cynulliad hwn).

**Cwricwlwm Newydd i Gymru**

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2018, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'ch Datganiad Cabinet ar yr un diwrnod, gan ddarparu cyfeiriadau a lincs i wahanol ffynonellau o wybodaeth. Gwnaethoch ddweud y byddech yn anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol at y Pwyllgor am gynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd wrth iddi ddod i law. Edrychwn ymlaen at dderbyn unrhyw wybodaeth arall o'r fath a allai fod ar gael.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gadarnhau eich bod yn meddwl y bydd deddfwriaeth sylfaenol ynghylch y cwricwlwm newydd yn cael ei chyflwyno ym mlwyddyn 4 rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu Cwricwlwm newydd i Gymru.

**Athrawon cyflenwi**

Nododd y Pwyllgor o'ch tystiolaeth lafar nad oeddech yn bwriadu symud tuag at fodel athrawon cyflenwi cenedlaethol, er gwaethaf datganoli cyflog ac amodau athrawon. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor blaenorol yn y pedwerydd Cynulliad wedi cynnal ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi. Roedd yr argymhelliad cyffredinol yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar opsiynau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi, gan gynnwys drwy gorff cenedlaethol.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at drafod y materion hyn mewn rhagor o fanylder wrth gynnal ymchwiliad arall i athrawon cyflenwi maes o law. Yn y cyfamser, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y materion a ganlyn:

- Trosolwg cryno o'r opsiynau y mae Llywodraeth Cymru yn eu trafod ar gyfer modelau o ddarparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol;
- Natur benodol cyflogaeth athrawon; hynny yw, a ydynt yn cael eu cyflogi gan ysgolion unigol neu awdurdodau lleol;
- I ba raddau y ceir unrhyw dystiolaeth fod dibyniaeth uwch ar athrawon cyflenwi mewn ysgolion sydd â dalgylchoedd difreintiedig a/neu ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau heriol.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA(P)KW/2555/18

17 Gorffennaf 2018

Annwyl Lynne

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf yn gofyn am yr wybodaeth y cytunais i'w darparu yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol ddiweddar.

**Cymorth ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i egluro sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor; mabwysiadwyd dull gweithredu integredig gan y Llywodraeth ar gyfer ein hasesiadau effaith a'n Hasesiad Effaith Integredig Strategol o'r penderfyniadau gwariant lefel uchel a wnaed fel rhan o'r gyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2018-19.

Rwyf wedi rhannu hyn gyda chi eisoes ond er eglurder, mae copi ar gael ar y dudalen we ganlynol http://gov.wales/funding/budget/draft-budget-2018-19/?lang=cy.

Mae hyn yn golygu na chynhaliwyd Asesiad unigol o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn mewn cysylltiad â'r newidiadau i'r trefniadau cyllido o fewn y Grant Gwella Addysg ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

O ran cefnogaeth ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, rwyf wedi parhau i wrando ar y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid gwahanol am effaith y newidiadau ar y trefniadau cyllido; ac rwyf wedi ymateb drwy gytuno ar £8.7 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon i gynorthwyo pob awdurdod lleol.

Fodd bynnag, rwyf wedi datgan yn glir bod yn rhaid i'r gefnogaeth ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr fod yn rhan o wasanaethau addysg lleol 'craidd'. Yn benodol, yn y cyfnod hwn o heriau a chyfyngiadau ariannol cynyddol, mae'n rhaid inni ystyried ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau sy'n bwysig iawn i'n pobl ifanc ac i gymdeithas yn gyffredinol. Rwyf wedi cael sicrwydd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd llywodraeth leol yn parhau i flaenoriaethu'r cymorth a roddir i'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Rwyf wedi croesawu'r sicrwydd hwn ac rwy'n disgwyl i lywodraeth leol gyflawni ei addewid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r cyllid yr wyf wedi cytuno arno ar gyfer y flwyddyn hon yn cydnabod ei bod yn cymryd amser i drosglwyddo’r gwasanaeth i un sy’n fwy cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy. Clustnodwyd £8.7 miliwn pellach ar gyfer y 22 awdurdod lleol yn 2019-20 i barhau i gefnogi’r gwaith o ddatblygu model cynaliadwy, a disgwyliaf i hyn fod ar waith o Ebrill 2020.

Bydd y cyllid hwn yn amodol ar dystiolaeth o gynnydd tuag at ddulliau cyflawni mwy cynaliadwy. Rydym yn gweithio gyda’n cydweithwyr mewn llywodraeth leol i ystyried modelau posibl ar gyfer y dyfodol. Er mwyn dechrau’r broses hon, mae fy swyddogion yn cwrdd yn ddiweddarach y mis hwn gyda Chyfarwyddwr Addysg yr awdurdod lleol o’r pedwar awdurdod â’r poblogaethau uchaf o’r grwpiau hyn o ddysgwyr. Mae cyfres o asesiadau effaith yn cael eu paratoi fel rhan o’r broses ddatblygu hon a bydd yn cael ei rhannu maes o law.

Nid ydym yn cadw gwybodaeth am wasanaethau addysg teithwyr ar lefel awdurdod lleol. Mae modelau darparu gwasanaethau gwahanol wedi’u sefydlu ar hyd a lled y wlad; bydd deall gweithrediad y modelau hyn a’u potensial o ran cynaliadwyedd; eu cynnwys ac i ba raddau y cânt eu cyflawni ar lefel ranbarthol, awdurdod lleol neu lefel ysgol, yn ffurfio rhan o’n gwaith gyda llywodraeth leol yn ystod y misoedd i ddod wrth baratoi ar gyfer Ebrill 2020.

**Maint Dosbarthiadau Babanod**

Cytunais i ddarparu nodyn ar yr achosion busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer yr elfen refeniw £16 miliwn o’r cyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod a sut yr oedd hyn yn cymharu â’r symiau a ddyrannwyd.

<u>Elfen refeniw'r cyllid</u>

Dosbarthwyd yr elfen refeniw o’r cyllid i awdurdodau lleol ar sail fformwla, gan gyfuno elfen Asesu Addysgu Meithrin a Chynradd ac Asesiad yn Seiliedig ar Ddangosyddion Gwasanaethau Eraill yr Asesiad o Wariant Safonol a nifer y dosbarthiadau babanod o 29 a mwy ym mhob awdurdod lleol. Atodir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol yn Atodiad 1. Er y dangosir y rhain wedi’u dadansoddi yn ôl y blynyddoedd, cynghorwyd awdurdodau bod hyblygrwydd, gan gydnabod yr amser sydd ei angen i benodi athrawon ychwanegol a/neu greu dosbarthiadau ychwanegol. Felly, gofynnwyd iddynt broffilio eu gwariant disgwyliedig dros bedair blynedd y rhaglen. Mae’r rhain wedi’u nodi yn Atodiad 2.

Roedd yn ofynnol i achosion busnes awdurdodau lleol ddangos tystiolaeth o sut yr oedd eu cynigion yn cyflawni’r nod sylfaenol o leihau meintiau dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy’n cyflawni’r meini prawf targed; hynny yw dosbarthiadau babanod o 29 neu fwy mewn ysgolion sy’n arddangos o leiaf un, neu gyfuniad o’r elfennau a ganlyn:

- Lefelau sylweddol o brydau ysgol am ddim
- Canlyniadau is na’r cyfartaledd pan fernir bod ysgol yn goch neu’n oren
- Lefelau sylweddol o anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol
- Lefelau sylweddol pan nad y Gymraeg/Saesneg yw’r iaith gyntaf

Roedd yn ofynnol iddynt ddarparu amrediad o wybodaeth a data ategol mewn perthynas â’r ysgolion a dargedwyd, ynghyd â’r canlyniadau disgwyliedig.

Cyflwynodd pob un o’r 22 awdurdod lleol achosion busnes a oedd yn targedu’r ysgolion â’r angen mwyaf, o fewn y cohort cyffredinol o ysgolion yn eu hardal hwy sy’n cyflawni’r meini prawf targed a chan ystyried y dyraniad penodol o gyllid a oedd ar gael. Hyd yma bydd y cynigion a gymeradwywyd yn arwain at benodi mwy nag 80 o athrawon mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru. Mae rhai awdurdodau lleol wedi datgan y byddant yn targedu mwy o

ysgolion o fewn eu dyraniad cyffredinol, felly bydd y nifer o athrawon a benodir yn debygol o gynyddu, ond bydd y cynigion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r taliad grant yn destun telerau ac amodau grantiau Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru. Telir y grant fel ôl-daliadau bob tymor yn seiliedig ar gostau gwirioneddol ac yn amodol ar adroddiadau cynnydd boddhaol. Mae'r awdurdodau lleol yn rhagweld gwariant llawn. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei ailgyfeirio i flaenoriaethau addysg.

<u>Yr Elfen Gyfalaf</u>

Rwyf hefyd wedi cytuno i ddarparu nodyn ar y dadansoddiad o'r dyraniad o elfen Gyfalaf £20 miliwn y cyllid. Gwahoddwyd y 22 awdurdod lleol i gynnig am yr £20 miliwn a oedd ar gael, lle y byddai lleihau maint dosbarthiadau babanod sy'n cyflawni'r meini prawf targed yn ddibynnol ar greu dosbarthiadau ychwanegol. Cyflwynodd 17 awdurdod gynigion a oedd yn werth mwy na £17 miliwn. Roedd y cynigion yn gymysgedd o estyniadau arfaethedig i adeiladau presennol ysgolion, addasiadau neu ailfodelu mewnol. Roedd cost y cynigion unigol yn amrywio, yn ôl graddau'r gwaith dan sylw.

Mae'r cynigion yn cael eu hasesu yn unol ag egwyddorion Ysgolion y 21ain Ganrif. Byddaf yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi, ynghyd â dadansoddiad o'r elfen Gyfalaf o'r cyllid y cytunwyd arni ar gyfer yr 17 awdurdod lleol a manylion yr ysgolion a fydd yn elwa ar hynny.

<u>Data ar Faint Dosbarthiadau</u>

Fe ofynnoch hefyd am ffigurau ar nifer y dosbarthiadau babanod a oedd yn cynnwys mwy na 25 o blant ar hyn o bryd a faint o ddisgyblion sydd yn y dosbarthiadau hynny a'r sefyllfa gyfatebol yn ystod oes y polisi hwn (tymor y Cynulliad hwn).

Mae data diweddaraf CYBLD ar gyfer Ionawr 2017 yn dynodi bod 2,507 o ddosbarthiadau (59.6%) yn cynnwys mwy na 25 o ddisgyblion yng Nghymru. Roedd 72,454 o ddisgyblion (67.3%) mewn dosbarthiadau a oedd yn cynnwys mwy na 25 o ddisgyblion.

Nid yw'n bosibl rhagweld faint o ddisgyblion a fydd mewn dosbarthiadau o fwy na 25 erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Er y gallwn ragweld nifer y disgyblion ar lefel Cymru, ni allwn wneud hynny ar gyfer ysgolion unigol. Bydd ad-drefnu ysgolion lleol ac unrhyw gamau a gymerir i fynd i'r afael ag unrhyw leoedd dros ben yn effeithio ar faint dosbarthiadau ac ni allwn ragweld y rhain yn y dyfodol. Rydym yn parhau i fonitro data CYBLD ar faint dosbarthiadau yn fanwl bob blwyddyn. Fodd bynnag, wrth inni barhau gyda'n buddsoddiad i leihau maint dosbarthiadau, rwy'n disgwyl y byddaf yn adrodd ar ostyngiad ym maint cyfartalog dosbarthiadau babanod a'r nifer o ddosbarthiadau babanod â mwy na 29 o ddisgyblion. Edrychaf ymlaen at rannu'r data hyn pan fydd yn briodol i wneud hynny.

**Cwricwlwm Newydd**

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn taro cydbwysedd rhwng galluogi athrawon i ddefnyddio eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ymateb i anghenion dysgwyr, a sicrhau bod yr agweddau hynny ar y cwricwlwm, yr ystyrir eu bod yn hollbwysig, yn cael grym deddfwriaethol.

Mae fy swyddogion wedi nodi meysydd a fydd yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni'r argymhellion, yn ogystal â'r ymrwymiadau ehangach a wnaed yng Nghenhadaeth ein Cenedl. Y bwriad yw y bydd y fframwaith deddfwriaethol newydd yn adlewyrchu

argymhellion 63 a 64 *Dyfodol Llwyddiannus* a'i fod yn canolbwyntio ar alluogi, ymhlith eraill, y camau canlynol sydd wedi cynnwys yng Nghenhadaeth Ein Cenedl:

- Cyflwyno cwricwlwm newydd sy'n gweddnewid, gan wreiddio'r pedwar diben a sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar safonau llythrennedd a rhifedd uwch, a sicrhau bod ein pobl ifanc yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog
- Datblygu a chyflwyno Fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd, gan gefnogi'r gwaith o wireddu'r pedwar diben addysg;

Rwy'n bwriadu ymgynghori ar ddechrau 2019 ar y cynigion polisi sy'n sail i'r trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm, asesu a gwerthuso, a fydd hefyd yn llywio'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys drafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc.

Rwyf wedi nodi eich dymuniad i dderbyn gwybodaeth am unrhyw agwedd ar gynnydd o ran Diwygio'r Cwricwlwm. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau eich bod chi ac aelodau'r Pwyllgor yn cael eich cynnwys ar restr ddosbarthu arbennig Dysg, a hoffwn eich gwahodd hefyd i 'ddilyn' blog Cwricwlwm i Gymru yn https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2018/07/18/gwella-profiadau-dysgwyr-cymraeg/ a fydd yn darparu gwybodaeth reolaidd a mynediad at gylchlythyrau i randdeiliaid.

**Athrawon Cyflenwi**

Rydym wedi cyflwyno cynllun peilot clwstwr ar gyfer cyflogi athrawon llanw yn uniongyrchol mewn ysgolion. Mae'r trefniadau i werthuso'r cynllun peilot yn mynd rhagddynt yn awr, er mwyn penderfynu a yw'r dull hwn yn cynnig model ymarferol a chynaliadwy i ysgolion y gallai ysgolion ac awdurdodau fel cyflogwyr eu datblygu'n ehangach.

Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a'u grŵp cleient awdurdodau lleol hwy er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw drefniadau yn y dyfodol ar gyfer canfod gweithwyr asiantaethau addysg yn gyfredol ac addas at y diben, ac yn cyflawni egwyddorion y Llywodraeth ar gyfer safonau ar gyfer cyflogaeth deg a safonau addysgol uchel.

Rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygiad arall, un gwahanol ond ategol (y soniais amdano ar 28 Mehefin), sy'n ymchwilio i gyflwyno safon sicrwydd ansawdd y byddai angen i asiantaethau sy'n dymuno cyflenwi gweithwyr i ysgolion yng Nghymru ei chyrraedd.

Mae swyddogaeth cyflogwyr ar gyfer athrawon mewn ysgolion penodol yn dibynnu ar gategori a statws yr ysgol dan sylw a'r trefniadau rheoli lleol sydd ar waith. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau system addysg effeithlon a bod nifer o leoedd cynradd ac uwchradd ar gael i gyflawni anghenion y bobl yn eu hardal. Mae gan yr awdurdod lleol rôl allweddol hefyd o ran ariannu ysgolion a dyrannu cyllidebau ysgolion ac mae'n ymwneud â threfniadau llywodraethu ysgolion unigol, gan gynnwys penodi llywodraethwyr i gorff llywodraethu'r ysgol.

Mae gan gyrff llywodraethu gyfrifoldebau penodol i recriwtio, dethol, cyflogi a rheoli staff. Mae'r cyfrifoldebau helaeth a roddir ar gyrff llywodraethu yn deillio o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (fel y'i diwygiwyd).

Mae gan gorff llywodraethu gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth a rhaid iddynt sicrhau bod nifer ddigonol o staff cymwys yn cael eu cyflogi neu'n ymgysylltu â gwaith yn yr ysgol. Y corff llywodraethu fydd hefyd yn penderfynu ar y strwythur staff ar gyfer yr ysgol, y nifer o swyddi athrawon a staff cymorth, eu graddfa a'u cyfrifoldebau. Mae cyrff

llywodraethu hefyd yn gyfrifol am wneud penodiadau staffio dros dro, gan gynnwys y ffordd orau o gyflawni anghenion cyflenwi pan fydd athrawon yn absennol.

O ran y pwynt a godwyd ynglŷn â'r dystiolaeth o'r defnydd ehangach o athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, nid oes unrhyw waith cymharu uniongyrchol wedi'i gynnal. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data yn flynyddol ar absenoldeb salwch ar lefel awdurdod lleol - mae dolen i'r datganiad ystadegol ar gael yma: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/Teacher-Sickness-Absence. Disgwylir i'r diweddariad nesaf gael ei gyhoeddi ar 25 Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod athrawon cyflenwi yn cael eu cyflogi'n aml i ddarparu ar gyfer cyfnodau o absenoldeb wedi'i drefnu gan athrawon, ar gyfer y rhai sy'n ymgymryd â dysgu proffesiynol a gweithio rhwng ysgolion ac ar achlysuron o absenoldeb heb ei gynllunio oherwydd salwch.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Atodiad 1

## Dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol o'r elfen refeniw £16 miliwn o'r grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod

| **Awdurdod Lleol** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** | **Dyraniad £** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 38,313 | 57,470 | 95,782 | 114,939 | £306,504 |
| Blaenau Gwent | 42,264 | 63,395 | 105,659 | 126,790 | £338,108 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 93,430 | 140,144 | 233,574 | 280,288 | £747,436 |
| Caerffili | 120,247 | 180,372 | 300,620 | 360,743 | £961,983 |
| Caerdydd | 261,971 | 392,956 | 654,927 | 785,912 | £2,095,766 |
| Sir Gaerfyrddin | 108,811 | 163,217 | 272,028 | 326,434 | £870,490 |
| Ceredigion | 35,516 | 53,273 | 88,789 | 106,547 | £284,125 |
| Conwy | 64,032 | 96,048 | 160,080 | 192,096 | £512,256 |
| Sir Ddinbych | 60,821 | 91,232 | 152,053 | 182,464 | £486,569 |
| Sir y Fflint | 99,572 | 149,358 | 248,930 | 298,716 | £796,576 |
| Gwynedd | 66,340 | 99,510 | 165,851 | 199,021 | £530,722 |
| Merthyr Tudful | 37,942 | 56,912 | 94,854 | 113,825 | £303,532 |
| Sir Fynwy | 53,298 | 79,947 | 133,245 | 159,894 | £426,384 |
| Castell-nedd Port Talbot | 85,869 | 128,803 | 214,672 | 257,607 | £686,951 |
| Casnewydd | 113,615 | 170,423 | 284,038 | 340,846 | £908,923 |
| Sir Benfro | 71,172 | 106,758 | 177,929 | 213,515 | £569,373 |
| Powys | 67,582 | 101,372 | 168,954 | 202,745 | £540,652 |
| Rhondda Cynon Taf | 173,113 | 259,670 | 432,783 | 519,339 | £1,384,904 |
| Abertawe | 150,365 | 225,548 | 375,913 | 451,096 | £1,202,923 |
| Torfaen | 70,750 | 106,126 | 176,875 | 212,251 | £566,002 |
| Bro Morgannwg | 90,302 | 135,453 | 225,755 | 270,906 | £722,417 |
| Wrecsam | 94,676 | 142,013 | 236,689 | 284,026 | £755,404 |
| **Cyfanswm** | **2,000,000** | **3,000,000** | **5,000,000** | **6,000,000** | **16,000,000** |

**Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod**

**Dadansoddiad o ddosbarthiad Dyraniadau Refeniw dangosol**
Darparwyd y dyraniadau canlynol i awdurdodau lleol, fodd bynnag, gofynnwyd iddynt broffilio eu gwariant yn ystod oes y grant. Yr oeddem yn cydnabod y byddai angen gwahanol lefelau o gyllideb ar awdurdodau lleol ar adegau gwahanol o'r grant, yn arbennig pan fydd cynigion refeniw yn ddibynnol ar yr elfen gyfalaf. Bydd cyllidebau yn cael eu monitro'n agos yn ystod y broses adrodd er mwyn sicrhau bod cyllid addas ar gael o fewn y gyllideb.

| **ALl** | **2017-18**<br>**£** | **2018-19**<br>**£** | **2019-20**<br>**£** | **2020-21**<br>**£** | **Cyfanswm**<br>**£** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 38,313 | 57,470 | 95,782 | 114,939 | 306,504 |
| Blaenau Gwent | 42,264 | 63,395 | 105,659 | 126,790 | 338,108 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 93,430 | 140,144 | 233,574 | 280,288 | 747,436 |
| Caerffili | 120,247 | 180,372 | 300,620 | 360,743 | 961,983 |
| Caerdydd | 261,971 | 392,956 | 654,927 | 785,912 | 2,095,766 |
| Sir Gaerfyrddin | 108,811 | 163,217 | 272,028 | 326,434 | 870,490 |
| Ceredigion | 35,516 | 53,273 | 88,789 | 106,547 | 284,125 |
| Conwy | 64,032 | 96,048 | 160,080 | 192,096 | 512,256 |
| Sir Ddinbych | 60,821 | 91,232 | 152,053 | 182,464 | 486,569 |
| Sir y Fflint | 99,572 | 149,358 | 248,930 | 298,716 | 796,576 |
| Gwynedd | 66,340 | 99,510 | 165,851 | 199,021 | 530,722 |
| Merthyr Tudful | 37,942 | 56,912 | 94,854 | 113,825 | 303,532 |
| Sir Fynwy | 53,298 | 79,947 | 133,245 | 159,894 | 426,384 |
| Castell-nedd Port Talbot | 85,869 | 128,803 | 214,672 | 257,607 | 686,951 |
| Casnewydd | 113,615 | 170,423 | 284,038 | 340,846 | 908,923 |
| Sir Benfro | 71,172 | 106,758 | 177,929 | 213,515 | 569,373 |
| Powys | 67,582 | 101,372 | 168,954 | 202,745 | 540,652 |
| Rhondda Cynon Taf | 173,113 | 259,670 | 432,783 | 519,339 | 1,384,904 |
| Abertawe | 150,365 | 225,548 | 375,913 | 451,096 | 1,202,923 |
| Torfaen | 70,750 | 106,126 | 176,875 | 212,251 | 566,002 |
| Bro Morgannwg | 90,302 | 135,453 | 225,755 | 270,906 | 722,417 |
| Wrecsam | 94,676 | 142,013 | 236,689 | 284,026 | 755,404 |
| | | | | | **£16m** |

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(P)-/KW/2501/18

Lynne Neagle AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPPIA@cynulliad.cymru

cc Simon Thomas AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

cc Mick Antoniw AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol SeneddFinance@assembly.wales
SeneddCLA@assembly.wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2018

Fel y cofiwch, yn ystod gwaith craffu eich pwyllgorau ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gwnaed ymrwymiad i roi gwybodaeth reolaidd ar y rhaglen i drawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dyma'r pedwerydd llythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

**1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol**

Ers inni roi gwybodaeth ichi ddiwethaf ym mis Ebrill 2018, mae fy swyddogion wedi parhau i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth ddrafft a'r fersiwn nesaf o'r Cod ADY a gaiff ei gyhoeddi i ymgynghori arno yn nes ymlaen eleni.

I helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r Cod ADY, rydym wedi comisiynu dau ymgynghorydd a weithiodd ar ddatblygu Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn Lloegr a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ar Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd. Ar 13 ac 14 Mehefin, cynhaliwyd dau weithdy gyda grŵp o randdeiliaid allanol a gymerodd ran mewn trafodaeth i ddatrys problemau ynghylch dau fater:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- y ffin rhwng cyfrifoldeb awdurdodau lleol a chyfrifoldeb ysgolion o ran Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)
- ystyriaethau i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach o ran CDUau i ddysgwyr ôl-16.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid hefyd drwy'r grwpiau arbenigol ADY amrywiol er mwyn datblygu a mireinio ein syniadau ynghylch agweddau penodol ar y Cod ADY drafft, ee rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar, a thempled y CDU.

## 2. Cymorth gweithredu / pontio

### 2.1. Arweinwyr trawsnewid y system ADY

Ers ymgymryd â'u swydd, mae arweinwyr trawsnewid y system ADY wedi bod yn meithrin cydberthnasau o fewn eu rhanbarthau eu hunain a ledled Cymru. Maent wedi helpu pob awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach yng Nghymru i lenwi eu hunanasesiadau parodrwydd cyntaf. Mae canlyniadau y rheini yn cael eu defnyddio, bellach, i ddatblygu cynlluniau gweithredu. Rhagwelir y caiff y cynlluniau gweithredu rhanbarthol ac o ran addysg bellach eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018.

### 2.2. Grantiau Arloesi ADY a Grwpiau Arbenigol

Ym mis Mawrth 2018, daeth y grant arloesi ADY o ddwy flynedd i ben. Grant a roddwyd ar gyfer y cyfnod cyn y ddeddfwriaeth oedd hwn. Ar 19 Mehefin, er mwyn dathlu gwaith y prosiectau a gyllidwyd gan y grant, cynhaliwyd Diwrnod Dysgu am Gronfa Arloesi ADY. Pwrpas y diwrnod oedd rhoi cyfle i arweinwyr y prosiectau rannu'r hyn a ddysgwyd ag ymarferwyr eraill ledled Cymru, gan gynnwys arferion gwaith effeithiol o fewn eu hardal. Mae'r diwrnod hefyd wedi helpu i lywio'r camau nesaf ar gyfer pob un o'r grwpiau arbenigol a'r ffrydiau gwaith posibl yn y dyfodol. Mae'r adborth a ddaeth i law y diwrnod hwnnw wedi bod yn eithriadol gadarnhaol ac mae Cronfa Arloesi ADY wedi helpu awdurdodau lleol i gydweithio a darparu prosiectau amlasiantaethol i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf').

### 2.3. Canllawiau ar weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddais y cyntaf mewn cyfres o ganllawiau sy'n esbonio sut y caiff y Ddeddf ei gweithredu. Mae'n canolbwyntio ar weithredu CDUau ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac yn iau. Mae'r canllaw yn amlinellu'r amserlen orfodol raddol arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i drosglwyddo plant sydd â chynlluniau anghenion addysgol arbennig - ee datganiadau a chynlluniau addysg unigol - i'r system ADY newydd. Mae’r canllaw llawn ar gael yma.

Rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau pellach a fydd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gweithredu agweddau penodol ar y system ADY, ee addysg bellach, gan gynnwys addysg ôl-16 arbenigol.

## 3. Datblygu’r gweithlu

Ym mis Mehefin, ar sail y ceisiadau a ddaeth i law, dyrannwyd cyfanswm o £262,689 i bedair ardal yn ystod blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 i gefnogi hyfforddiant ôl-radd i arbenigwyr ac athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â dysgwyr â nam ar eu clyw a nam ar fwy nag un synnwyr. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio hefyd i hwyluso

hyfforddiant mewn Braille a Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff arbenigol awdurdodau lleol.

Mae £26,329 yn fwy wedi'i ddyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 i hwyluso hyfforddiant ôl-radd i arbenigwyr ac athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â dysgwyr â nam ar eu golwg.

Er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o Seicolegwyr Addysgol, rydym yn cyllido rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd mewn Seicoleg Addysgol. Mae'r trafodaethau gyda'r Brifysgol am y trefniadau o 2019-20 yn parhau.

Mae Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr yn y maes wedi datblygu fframwaith drafft sy'n amlinellu sgiliau Cydlynwyr ADY a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Bydd y fframwaith drafft yn helpu i lywio penderfyniadau cyllid mewn perthynas â'r rhaglen i ddatblygu sgiliau gweithlu'r Cydlynwyr, fel rhan o'r rhaglen werth £20m i drawsnewid y system ADY. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ein polisi ehangach ar Gydlynwyr ADY, gan gynnwys y gofynion rheoliadol arfaethedig a gaiff eu cyflwyno o dan y Ddeddf.


## 4. Codi ymwybyddiaeth

### 4.1. Deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithredu ADY

Mae'r deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithredu ADY, sy'n cael eu datblygu gan Eliesha Cymru, wedi'u rhannu'n bedair lefel, a phob lefel yn targedu gwahanol ymarferwyr. Mae lefel un y rhaglen hyfforddiant ar-lein yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lefel hon yn targedu pob gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY a bydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/KD/LPR

18 Gorffennaf 2018

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch ynghylch ein cynlluniau ar gyfer y ddwy fenter Senedd@... nesaf:

- Senedd@Aberystwyth - wythnos yn dechrau ar 3 Rhagfyr 2018;
- Senedd@Caerffili - wythnos yn dechrau ar 25 Mawrth 2019.

Rydym yn y broses o ddylunio ein rhaglen o ddigwyddiadau a gaiff ei hategu gan sesiynau allgymorth ac addysg gydag ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, busnesau ac elusennau yn yr ardal.

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol a sesiynau ymgysylltu anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol i annog pobl i gymryd rhan yn eu gwaith. Mae Senedd@Aberystwyth a Senedd@Caerffili yn gyfle i godi proffil eich Pwyllgor, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a dinasyddion lleol. Felly buasem yn ddiolchgar pe baech yn ystyried a hoffai eich pwyllgor gymryd rhan yn un neu'r ddau Senedd@ a rhoi gwybod inni beth rydych yn bwriadu ei wneud drwy gysylltu â Kevin Davies (kevin.davies2@assembly.wales).

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Huw Irranca-Davies AC
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

18 Gorffennaf 2018

Annwyl Huw

Diolch am y llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf 2018 lle rhoddoch y wybodaeth ddiweddaraf am y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd. Yng ngoleuni'ch ymateb, mae gan y Pwyllgor bwyntiau ychwanegol y mae'n dymuno cael eglurhad yn eu cylch.

Yn ein llythyr dyddiedig 8 Mai 2018, fe wnaethom ofyn am gopïau o'r gwerthusiadau o'r pum prosiect a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2017 ac y dyrannwyd dros £10 miliwn o arian Llywodraeth Cymru iddynt yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn. Yn eich ymateb, fe wnaethoch nodi linc i'r gwerthusiad y comisiynodd Cwlwm o'i waith ei hun.

A allwch chi felly egluro pa werthusiad, os o gwbl, y gwnaeth Llywodraeth Cymru i fodloni ei hun bod pum prosiect y Grant wedi cyflawni'r canlyniadau a amlinellwyd yn y llythyrau grant? Er enghraifft, dyfarnwyd y grant i Groundwork Wales ar sail bod disgwyl i dros 11,500 o blant gymryd rhan yng ngweithgareddau chwarae'r rhaglen, a diben y grant i Tros Gynnal oedd ariannu dros 550 o rieni ac ymarferwyr i gymryd rhan mewn prosiectau hyfforddi.

Rydym yn nodi, adeg dyfarnu'r grantiau, y dywedodd y Datganiad gan y Cabinet bod "y broses asesu a dyfarnu yn pwysleisio pa mor bwysig yw ansawdd y gwasanaeth a'r canlyniadau rydym yn disgwyl eu gweld yn cael eu cyflawni".

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Dywed eich llythyr nad y bwriad oedd i'r Grant fod yn ffrwd ariannu hirdymor, ac mai'r bwriad oedd i fersiynau o'r grant ddatblygu yn y dyfodol er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth wrth iddynt newid. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eglurder am y canlynol:

- At ba ddiben y mae'r £1.35 miliwn sy'n weddill (a fyddai wedi bod yn rhan o ddyraniad blynyddol y Grant) wedi'i ail-ddyrannu ar gyfer 2018-19?

- A oes unrhyw fwriad i adfer proses ymgeisio/grant ar gyfer 2019-20? Os na, beth fydd y broses yn y dyfodol?

Yn wreiddiol, ni ddyfarnwyd arian o'r Grant i Chwarae Cymru rhwng 2014 a 2017. Fodd bynnag, newidiwyd y penderfyniad hwn wedyn a dyfarnwyd cyllid grant Llywodraeth Cymru am ddeunaw mis i ddechrau. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn parhau ac rydym yn nodi o'ch llythyr bod cyllid o £360,000 wedi'i ddyrannu i Chwarae Cymru yn 2018-19. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro'r meini prawf ar gyfer y dyraniad hwn a sut y mae hyn yn berthnasol i flaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru fel y cyfeirir atynt yn eich llythyr.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech egluro pryd y bydd penderfyniad yn debygol o gael ei wneud ynglŷn â chyllid Plant yng Nghymru, ac a fyddwch chi'n cyhoeddi'r adolygiad o'r cyllid y mae wedi'i gael hyd yn hyn o'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd. Rydym yn nodi bod cyllid wedi'i ymestyn tan fis Medi 2018.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : MA-P-HID/2911/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Awst 2018

Annwyl Lynne,

**Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yn gofyn am eglurhad am nifer o bwyntiau ychwanegol mewn perthynas â'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd.

Fel yr wyf wedi'i amlinellu eisoes, bydd yr arian a ddyrannwyd yn flaenorol drwy'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd yn cael ei ddarparu i Cwlwm, Chwarae Cymru a Plant yng Nghymru yn 2018-19. Bydd cyllid hefyd ar gael i gefnogi'r agenda chwarae ehangach a'n hymrwymiad i'r Blynyddoedd Cynnar fel y nodir yn Ffyniant i Bawb. Nid oes unrhyw fwriad i adfer y broses ymgeisio/grant ar gyfer 2019-20, a bydd y trefniadau cyllido craidd sydd ar waith ar gyfer y sefydliadau hyn yn destun proses fonitro barhaus yn erbyn cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt.

Yn eich llythyr, gofynnoch am y canlyniadau a gyflawnir o dan brosiectau'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd megis Tros Gynnal Plant, Promo-Cymru a Groundwork Wales.

Dyfarnwyd cyfanswm o £882,000 i **Tros Gynnal Plant** o dan elfen 'Ymgysylltu' y Gran Cyflawni at ddibenion cyflwyno Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd drwy Ddulliau Adferol Cymru Gyfan (RAFEP) dros gyfnod o 3 blynedd, gan ddechrau ym mis Hydref 2014.

Llwyddoddd y prosiect i gyrraedd y targedau cyflawni disgwyliedig a rhagori arnynt oherwydd dangosodd adroddiad terfynol y prosiect fod cyfanswm o 1,762 o unigolion wedi cymryd rhan ynddo (336 o Ymarferwyr a 339 o deuluoedd a 75 o grwpiau) ac roedd wedi hyrwyddo a chefnogi'n llwyddiannus y defnydd o Ddulliau Adferol gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol i wella effeithiolrwydd ymgysylltu â gwasanaethau.

Fel rhan o delerau ac amodau'r grant, cyflwynwyd adroddiadau ar gynnydd i swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal comisiynodd Tros Gynnal werthusiad gan CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod ail flwyddyn y contract. Gellir gofyn am gopi o'r gwerthusiad drwy ddilyn y ddolen ganlynol http://www.rafep.wales/cueval.aspx

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyfarnwyd cyfanswm o £1,597,392 i **Promo-Cymru** o dan y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd o fis Hydref 2014 i fis Rhagfyr 2017. Pwrpas y grant oedd darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyfathrebu Cymru gyfan ar-lein yn ddwyieithog i deuluoedd, a elwir yn Pwynt Teulu Cymru.

Fel rhan o delerau ac amodau'r grant, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol ar gynnydd y grant i swyddogion Llywodraeth Cymru. Dangosodd y data a dderbyniwyd yn yr adroddiad chwarterol terfynol (Hydref - Rhagfyr 2017) gan Promo-Cymru fod twf clir o fis i fis yn y defnydd o'r Gwasanaeth Pwynt Teulu, gyda chynnydd trifflyg yn nifer y cysylltiadau ers lansio’r llinell gymorth ym mis Tachwedd 2015. Mae Promo-Cymru yn parhau i gysylltu rhieni ac unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc â gwasanaethau allweddol yng Nghymru drwy eu gwefan a'u llinell gymorth.

Dyfarnwyd cyfanswm o £1,410,028 i **Groundwork Cymru** i ddatblygu prosiect Chwarae Cynaliadwy fel Gwasanaeth o Ddiddordeb Economaidd Cyffredinol i gynyddu a gwella hygyrchedd ac ansawdd profiadau chwarae awyr agored plant ar draws rhannau o Gymru sy'n dioddef o lefelau uchel o amddifadedd. Ariannwyd y prosiect dros gyfnod o 3 blynedd yn dechrau ym mis Hydref 2014 tan fis Hydref 2017.

Llwyddodd y prosiect i ragori ar y targedau cyflenwi, ac amlinellir y manylion isod:

| Enw’r allbwn | Targed o ran Allbwn | Allbwn a gyflawnwyd |
|---|---:|---:|
| Nifer y Plant a Phobl Ifanc sy’n ymgysylltu â Sesiynau Chwarae Awyr Agored | 18,000 | 22,450 |
| Nifer y Gweithdai/Sesiynau Cynghori a Ddarparwyd i Sefydliadau Partner | 90 | 94 |
| Nifer y Plant a Phobl Ifanc Anabl sy’n ymgysylltu â Sesiynau Chwarae Awyr Agored | 600 | 1,361 |
| Nifer y Digwyddiadau Chwarae a Ddarparwyd ar gyfer Teuluoedd | 90 | 120 |
| Nifer y Teuluoedd sy’n Mynychu Sesiynau Chwarae | 720 | 5695 |
| Nifer y Sesiynau Hyfforddi SNAP | 90 | 94 |

Fel rhan o delerau ac amodau'r grant, cyflwynwyd adroddiadau ar gynnydd i swyddogion Llywodraeth Cymru.

Gan droi at **Cwlwm**, fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, comisiynwyd Ymchwil Arad gan Cwlwm yn 2017 i gynnal adolygiad o ddatblygiad ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth Cwlwm. Cyflwynodd yr adroddiad a gyhoeddwyd ganfyddiadau'r adolygiad ac roedd yn cynnwys gwersi ac argymhellion allweddol ar gyfer Cwlwm a rhanddeiliaid, megis Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.
http://www.meithrin.cymru/news/i/115656/desc/cwlwm-report/

Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu datblygu fel rhan o gynllun busnes Cwlwm ar gyfer 2018-19, sy'n canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol er mwyn cefnogi aelodau o sefydliadau partneriaeth Cwlwm a rhai nad ydynt yn aelodau, gan fabwysiadu dull sector gyfan' o gefnogi'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae yng Nghymru:

- Hyrwyddo’r Cynnig Gofal Plant;
- Datblygu a Hyfforddi’r Gweithlu;
- Darparu Cymorth Busnes;
- Cyfrannu at waith sy’n gysylltiedig â’r Arolygiaeth Gofal Cymru

- Cefnogi’r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru);
- Adolygu’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol; a
- Cyfrannu at gyflawni targedau 'Cymraeg 2050'.

O ran **Chwarae Cymru**, mae eich llythyr yn nodi'n gywir na ddyfarnwyd y Grant Plant a Theuluoedd iddynt, ond bod yr arian hwnnw'n cael ei ddarparu ar wahān oherwydd eu rôl werthfawr wrth ddarparu cymorth strategol i Lywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r sector chwarae i gynyddu a gwella cyfleoedd chwarae i blant ledled Cymru. Nid oes unrhyw feini prawf penodol ar gyfer dyrannu arian i Chwarae Cymru. Dyfernir yr arian i Chwarae Cymru er mwyn:

- darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar bob maes polisi lle mae cysylltiadau â chwarae;
- cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i weithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae statudol;
- cynnal llyfrgell o ymchwil ac arfer gorau a’u lledaenu;
- cynrychioli Cymru ar fforymau rhyngwladol; a
- cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

O ran sut mae'r grant a ddarperir yn berthnasol i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gwyddom fod chwarae a hamdden yn hanfodol i iechyd a llesiant plant ac yn hyrwyddo datblygu creadigrwydd, dychymyg, hunanhyder, hunan-effeithiolrwydd, yn ogystal â chryfder a sgiliau corfforol, cymdeithasol, gwybyddol ac emosiynol. Mae chwarae yn datblygu gwytnwch plant ac yn lliniaru effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Mae gwaith Chwarae Cymru yn arbennig o berthnasol felly i gyflawni amcanion llesiant Iach, Egnïol, Ffyniannus, a Diogel yn ein strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb, ynghyd â blaenoriaeth drawsbynciol y Blynyddoedd Cynnar.

Yn olaf, gofynnoch am eglurhad ynghylch pryd y byddai penderfyniad yn debygol o gael ei wneud ynglŷn â chyllido **Plant yng Nghymru.** Yn dilyn adolygiad mewnol Llywodraeth Cymru o'r grant i Plant yng Nghymru, rhannwyd y canfyddiadau allweddol gyda Plant yng Nghymru a chânt eu rhannu â’r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr i Plant yng Nghymru yn cymeradwyo parhau'r cyllid (£335,000) at y dibenion a nodir yn nhermau ac amodau'r grant. Bydd yr arian ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2018 a 31 Mawrth 2019. Felly, cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i Plant yng Nghymru, gan gynnwys y £50,570 i hwyluso ymgynghoriad ar Brexit, yw £724,860.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ymdrin â'r ymholiadau ychwanegol mewn perthynas â’r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/2411/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

27 Gorffennaf 2018

Annwyl Lynne,

Yn dilyn y ddadl ar ein hymateb i adroddiad *Cadernid Meddwl*, roeddem am ddiweddaru'r Pwyllgor ar y trafodaethau yr ydym wedi bod yn eu cael o fewn y llywodraeth. Maent wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gyflymu ein gwaith i wella iechyd a lles plant a phobl ifanc ar lefel ysgol gyfan yng Nghymru.

Mae datblygu plant a phobl ifanc gwydn a chyflymu'r gwaith o wella cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion, yn feysydd allweddol y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'w cyflawni dan y thema iechyd meddwl yn *Ffyniant i Bawb*. Mae ymchwiliad y Pwyllgor a'r adroddiad dilynol wedi bod o gymorth mawr wrth lywio'r trafodaethau hyn ac yn tynnu sylw at yr angen i ni roi trefniadau ar waith i symud camau nesaf yr agenda ymlaen yn gyflym; bydd dull ehangach hwn o weithredu yr ydym yn ei gynllunio yn dwyn ynghyd nifer o argymhellion y Pwyllgor.

Felly, byddwn yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol newydd – wedi'i gadeirio ar y cyd gennym ni i ffurfioli trefniadau i yrru a goruchwylio'r cynnydd a galluogi i benderfyniadau amserol gael eu gwneud i sicrhau nad oes unrhyw oedi yn y gwaith. I gynnig mwy o eglurder i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hoffem eich gwahodd, fel y Cadeirydd, i fod yn aelod o'n Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol.

Bydd grŵp cyfeirio rhanddeiliaid hefyd yn cael ei alw i sicrhau y gall yr ystod eang o asiantaethau sydd â rôl wrth gyflwyno dull gweithredu ar lefel ysgol gyfan gyfrannu'n ystyrlon i'r rhaglen waith hon. Bydd manylion aelodaeth lawn y grŵp yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

Er mwyn cefnogi gwaith y grwpiau hyn, rydym wedi cytuno i sefydlu tîm newydd o swyddogion pwrpasol i weithio ar draws portffolios iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i yrru'r agenda hon yn ei blaen ac i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd sy'n gydlynol ac yn gynaliadwy ym maes lles meddyliol. Bydd y tîm hwn yn tynnu ar arbenigedd o asiantaethau allweddol a sicrhau bod y cysylltiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud gyda

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhaglenni gwaith perthnasol eraill - megis y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc dan arweiniad y GIG.

Elfen allweddol o'r gwaith hwn fydd adolygu unrhyw ddysgu cynnar yn dilyn y rhaglenni peilot ar estyn cymorth yn yr ysgol. Rydym wedi gofyn i swyddogion gysylltu â chi i gynnig i chi ymweld â'r prosiectau a'r dulliau presennol o weithio i weld y gwaith sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru.

Gobeithio y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i chi ynghylch y camau rydym yn eu cymryd i'n galluogi i gyflawni ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer agwedd ysgol gyfan, fel rhan o'r dull ehangach o weithredu ar lefel y system gyfan i wella cydnerthedd, ac iechyd emosiynol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc. Byddwn yn darparu diweddariad ar yr hyn fydd wedi'i gyflawni i'r Pwyllgor yn yr hydref ac yn achlysurol wedi hynny.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

16 Awst 2018

Annwyl Ysgrifenyddion y Cabinet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ein hadroddiad Cadernid Meddwl.

Mae eich llythyr yn amlinellu eich bwriad i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol – a fydd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y ddau ohonoch – i "ffurfioli trefniadau i yrru a goruchwylio'r cynnydd a galluogi i benderfyniadau amserol gael eu gwneud i sicrhau nad oes unrhyw oedi" mewn perthynas â darparu cefnogaeth ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datblygiad hwn fel cydnabyddiaeth o ganfyddiadau'r ymchwiliad, a'r teimladau cryf a fynegwyd yn y Siambr am yr angen am newid sylweddol yn y maes pwysig hwn.

Rwyf wedi gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor i gymryd rhan yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac rwy'n falch o allu derbyn y gwahoddiad i wneud hynny. Rwyf i, ac aelodau'r Pwyllgor, yn cytuno y byddai'n fwy priodol i mi ymgysylltu fel arsylwr, gan gymryd rhan ac ymgysylltu'n llawn yn yr holl drafodaethau a chyfarfodydd, ond gan hefyd gadw fy annibyniaeth yn y pen draw i graffu ar y Llywodraeth a'i dal i gyfrif yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r penderfyniad i greu tîm newydd o swyddogion i weithio ar draws y portffolios iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i ddatblygu'r

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565


agenda hwn ac i sicrhau agwedd gydlynus a chyflawn at les emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn croesawu'r penderfyniad i sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i lywio'r gwaith hwn, ac edrychwn ymlaen at gael ein cynnwys mewn ymgynghoriad ar ei aelodaeth.

Er mwyn sicrhau bod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ymgynghori â ni ar ei gylch gorchwyl. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i gynnal yr amserlen sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith hwn, a byddem yn croesawu bod y cylch gorchwyl terfynol yn cael ei dderbyn erbyn diwedd mis Medi 2018.

Yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn, fe wnes i, ac Aelodau eraill, alw ar Lywodraeth Cymru i edrych eto ar ei hymateb i'n hadroddiad. Yn sgil eich bwriad i greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd angen amser nawr er mwyn i waith y Grŵp fynd rhagddo er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad. Serch hynny, mae ein hymrwymiad i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud fel mater o frys yn parhau i fod yn gryf. Ar y sail honno, ac wrth gydnabod yr angen i adlewyrchu gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gwaith parhaus y Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig i argymhellion ein hadroddiad erbyn mis Mawrth 2019.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni'r newid rydym wedi'i alw amdano yn ein hadroddiad, a byddwn yn ymgysylltu'n adeiladol gydag ymrwymiad i sicrhau'r agwedd system gyfan sydd ei hangen er mwyn gwella'r cymorth sydd ar gael i'n plant a phobl ifanc.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/2411/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

7 Medi 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Awst ynghylch ein cynigion i sefydlu Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion i symud ymlaen â'r 'dull ysgol gyfan' o wella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc, a phrif argymhellion yr adroddiad *Cadernid Meddwl.*

Rydym yn falch bod y Pwyllgor yn croesawu'n cynnig i symud ymlaen â'r agenda hon. Mae eich llythyr yn codi nifer o bwyntiau yr ydym am eu hegluro cyn i ni wneud cyhoeddiad ffurfiol am y gwaith hwn.

Rydych wedi awgrymu eich bod yn dymuno ymuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel sylwebydd, gan gymryd rhan yn llawn ond gan gadw eich annibyniaeth i gyflawni eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor. Rydym yn croesawu'ch cyfraniad llawn at drafodaethau'r Grŵp, mae gennych gyfoeth o wybodaeth a phrofiad a fydd yn werthfawr tu hwnt i'n gwaith.

Byddwn hefyd yn gwahodd y Comisiynydd Plant i ymuno â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac mae fel rheol yn gwneud hynny fel sylwebydd. Mae hyn yn unol â'i swyddogaeth statudol i graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru.

Gofynnoch hefyd am ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch cylch gorchwyl y Grŵp ac aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, a fydd yn cefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gorff a benodir gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ein cynghori yn rhinwedd ein swyddi fel gweinidogion er mwyn i ni wneud penderfyniadau deallus a phriodol. Bydd eich rôl gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o gymorth i gyfathrebu rhwng y Grŵp a'r Pwyllgor. Dylai hyn sicrhau bod sylwadau a buddiannau'r Pwyllgor yn cael eu hadlewyrchu, a'n dwyn i gyfrif, pan fo materion yn cael eu hystyried. Edrychwn ymlaen at glywed eich sylwadau ar gylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp rhanddeiliaid.

Gofynnoch hefyd am ymateb ysgrifenedig diwygiedig i'r adroddiad *Cadernid Meddwl* erbyn mis Mawrth 2019. Byddem yn falch o ddarparu diweddariad pellach i'r Pwyllgor gan edrych

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar yr holl argymhellion, gan ganolbwyntio ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ran yr argymhellion iechyd ac addysg.

Rydym yn deall eich bod wedi cymeradwyo'r datganiad i'r wasg drafft yn cyhoeddi'r gwaith hwn, yr ydym yn bwriadu ei ryddhau heddiw (7 Medi). Bydd yn cyd-fynd â Datganiad Ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn cyd-daro â gweithdy amlasiantaeth sydd hefyd yn cael ei gynnal heddiw.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Royal College of General Practitioners
Coleg Brenhinol Meddygon Teulu
RCGP Cymru Wales

Friday 3 August 2018

Lynne Neagle AM
Chair
Children, Young People and Education Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Ms Neagle,

**The emotional and mental health of children and young people**

I am writing with regard to the recent report on the emotional and mental health of children and young people, as well as the Welsh Government's response.

Thank you for the opportunity to give evidence to the Committee, both orally and in writing. The subject is an extremely important one and it's vital we get this right.

'Mind over matter' raised some very important issues and RCGP Wales believe it made many constructive suggestions to improve the services Wales offers its children and young people.

I noted your reaction to the Welsh Government's response and RCGP Wales shares concerns about the rejection of certain recommendations. I am aware that you have asked the Welsh Government to reassess their approach on the other side of recess. This is a call RCGP Wales agrees with.

We are writing in the first place to express our support for the need for more action, and additionally to provide some thoughts on the report and the Welsh Government's response.

I hope the information in this letter can support the work of the Committee. Annex 1 contains analysis of the Welsh Government's reaction to some of the recommendations. Annex 2 contains a briefing on the Committee report.

Yours sincerely,

Dr Jane Fenton-May
Vice-Chair, Royal College of General Practitioners Wales.

Royal College of General Practitioners Wales   Regus House Falcon Drive  Cardiff Bay Cardiff  CF10 4RU

Tel 020 3188 7755  Fax 020 3188 7756  email  welshc@rcgp.org.uk  web  www.rcgp-wales.org.uk

Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru  Tŷ Regus Rhodfa'r Hebog  Bae Caerdydd  Caerdydd  CF10 4RU
Ffôn 020 3188 7755  Ffacs 020 3188 7756  ebost  welshc@rcgp.org.uk  web  www.rcgp-wales.org.uk

Patron: His Royal Highness the Duke of Edinburgh  Registered charity number 223106

## Annex 1 – RCGP Wales analysis of the Welsh Government response to 'Mind over matter'

The information below picks out the recommendations particularly affecting GPs where we have concerns about the Welsh Government's response.

| |
|---|
| **Recommendations 3, 4, 5 and 6** all focused on developing services in schools. In each case, the Welsh Government's response was to 'accept in principle'. |

We share widespread concern about the frequent use of 'accept in principle' as a response to recommendations. It is common across different inquiries and government departments. It risks obscuring the issue and discouraging engagement.

The Welsh Government's rationale for accepting recommendations in principle was often because it believes that work is already in place. We have some concerns about this approach; if the current approach was working then the report would not have made the concerning findings it did. The Committee's report expressed serious doubts about the current state of affairs, which was informed by expertise from across the sector. If the Welsh Government is unwilling to accept recommendations it should at least do more to outline how it will improve current services. This is particularly true for recommendations 3, 4, 5 and 6 and also has wider relevance.

In its response to recommendation 3, the Welsh Government seems unwilling to recommend a national approach. In response to recommendation 4, it says it is unable to endorse a specific programme. In 'A Healthier Wales' the Welsh Government talks about the need for stronger national leadership, and providing stronger direction to decision making. This was in response to the Parliamentary Review of Health and Social Care highlighting the OECD's call for a 'stronger central guiding hand' to play a more prescriptive role. We believe these principles should still apply, a cross-departmental approach cannot lead to inconsistency in approach. If the Welsh Government is unwilling to follow the recommendations to the letter, we believe it should consider alternatives approaches to showing more central leadership.

GPs have a vital role in the emotional and mental health of children and young people, but we acknowledge there are difficulties in engaging with that particular group. In many cases school based services are more appropriate and we strongly encourage their development. 'Accept in principle' cannot mean business as usual.

| |
|---|
| **Recommendation 9** - WG make available the management and data tracking progress in relation to LPMHSS waiting times for assessment and interventions for cyp since the commencement of the provisions of the MHMeasure 2010. |
| **Welsh Government response – 'reject'** |

This has been rejected on the basis that figures relating to age of referrals have not been available. This seems difficult to understand. It is important that data is collected efficiently by LPMHSS, including waiting times for different treatments as well as assessment, and that account it made of different groups to ensure there is no discrimination by age or other factors (such as language).

The criteria for data collection must be set nationally so that there is clear comparison between LHBs, rather than LHBs being able to choose which data is publicly available. What

may still be hidden by the referral data is that locally the lack of appropriate services means that referrals are not made, so gaps in data also need to be explained to ensure services can be developed in a timely fashion. GPs need to know there are services available via LPMHSS for patients who have problems, providing support before problems escalate to requiring more advanced services.

This preventative approach is consistent with Welsh Government objectives, most recently restated in ‘A Healthier Wales’.

**Recommendation 11** - WG ensure:

1. consistent pathways for all sCAMHS services based on the national referral criteria once agreed, are implemented by all health boards (and related agencies where relevant) within six months of this report’s publication.

2. Each pathway is accompanied by defined standards against which all health boards can be measured and benchmarked consistently

3. Information is made publicly available so that health boards and WG can be held to account for performance in a transparent and well-informed way.

**Welsh Government response – 11.1 accept, 11.2 accept, 11.3 reject**

11.3 has been rejected on the basis that it is up to LHBs to determine what information they publish. Unless there are minimum standards and similar data collections, then comparisons between LHBs to identify the gaps in delivery will be difficult. The Welsh Government has said it ‘would expect’ this information to be in the public domain – either through the local Partnership Board or other route – we believe a stronger commitment to ensure the data is available is necessary.

**Recommendation 15** - WG, within six months of this report’s publication, in relation to crisis and out of hours care:

1. Work with police forces to scope the proposed all-Wales triage model which would see mental health practitioners situated in police control rooms to provide advice when cyp (and other age groups, if appropriate) present in crisis

2. Outline how resources could be directed towards enabling crisis teams in all health boards to provide training and cascade expertise to other frontline services, particularly colleagues in A&E, in border areas (to improve cross border relations with those centres most often accessed by Welsh domiciled patients), and in schools (to normalise conversations about suicide and selfharm in particular).

3. Ensure that follow-up support is being provided by health boards after discharge, provide information on how health boards monitor this provision and commit to making this information publicly available to ensure transparency and accountability

4. Ensure all health boards are adhering to the requirement to hold designated beds that could be staffed adequately for under 18s in crisis, indicating how this will be monitored and reported in future and what steps will be taken if such beds are not available

| |
|---|
| 5. Implement with pace and in a uniform way across health boards the single point of access approach to specialist services, to ensure timely and appropriate access to support, urgent or otherwise<br><br>6. Reflecting on the results of the review of crisis care, outline what more needs to be done to deliver a safe and cost-effective 24/7 crisis care service in all areas, how that will be done and by when. |
| **Welsh Government response – 15.1 accept, 15.2 reject, 15.3 reject, 15.4 accept, 15.5 accept, 15.6 reject** |

We are concerned about the rejections in this group of recommendations. Access to services for children and young people with mental health crises is patchy across Wales. If they are seen it is equally important they are adequately supported by follow up services after discharge. Unless these are monitored and the result made available, there will continue to be gaps in service and inequity in provision.

Crisis services need to be available across Wales on a 24/7 basis. We acknowledge concerns about cost effectiveness, but maintain that children and young people suffering from acute severe mental health need to be managed by specialist CAMHS psychiatrists. They should not be treated by other health professionals who do not have the specialist knowledge and training. In emergencies, specialist CAHMS psychiatrists (if distant from the patient) should be able to provide advice to other health professionals to enable suitable transfer to safe care. Many drugs used for mental health problems are not advised for children and adolescents, and GPs are not trained in managing these complex problems or to prescribe psychiatric drugs for this age group.

| |
|---|
| **Recommendation 19** - WG in light of the importance of the transition period in retaining engagement with support services and the heightened vulnerabilities of young people as they enter adulthood, require health boards and LAs to report to them on a six monthly basis: 1. Steps taken to ensure implementation of the transition guidance 2. Assessment of their level of adherence to the guidance 3. The challenges they encounter when seeking to deliver smooth transitions and how they are mitigating those risks |
| **Welsh Government response – 'reject'** |

We are sad to learn that there will be further delays in ensuring transition services and processes are implemented. For some young people there are not complementary adult mental health services. It is inappropriate if GPs are expected to take over their management as they are unlikely to have the necessary specialist skills. It risks treatment and support stopping as young people reach adulthood, potentially preventing them entering employment or further education and disadvantaging their future prospects. We have been involved in discussions about transition and the development of pathways under the Together for Children and Young People Programme and we are concerned that there continues to be poor progress in implementation.

## Annex 2 - The emotional and mental health of children and young people – RCGP Wales briefing

*(Note – this was a briefing issued to Welsh Assembly Members in July 2018)*

- It is vital that GPs have services available to refer patients in a timely fashion. The current picture is one of delays and a lack of available services. In this context, RCGP Wales is particularly supportive of recommendations 11 and 20.
- We acknowledge there can be difficulties for a GP in engaging with children and young people in this area. In many cases services in schools are more appropriate and we would encourage the development of these. We support recommendations 3, 4, 5 and 6.
- We have raised issues around the transition from child to adult services, and we support recommendation 19 of the report.

RCGP Wales welcomes the debate on the emotional and mental health of children and young people. The College submitted written and oral evidence to the Committee's inquiry.

**A GPs role in the emotional and mental health of children and young people**

- At the frontline of the NHS, we recognise the important role GPs can have in this area. The report recognized that joint working between professionals from across sectors is important.
- We recognise there can be difficulties in engaging with children and young people on emotional and mental health:
  - Children may be unlikely to present to a GP by themselves, for example if they are unfamiliar with the system.
  - If they are brought by a parent or parents, it may be difficult to discuss the relevant information with extra people in the room.
  - Short appointments – with 10 minutes being the norm and workload pressures making it difficult to expand them on a regular basis – can make it difficult to build trust and obtain the necessary information.
- In this context, school services may be more appropriate and the development of them is essential.
- The report highlighted a variation in individual experiences of seeking mental health support from GPs for children and young people. It called for more training to be available for everyone working with children and young people. RCGP Wales believes there is a role for more training and there would be appetite for it from some GPs. We also note that we remain a generalist profession, covering an extremely broad range of areas.
- In many cases it would be inappropriate for a generalist professional to be the sole practitioner managing these patients. A GP cannot be expected to work outside of their competency. Often a GP's main role is to provide support and reassurance; the crucial thing in these situations is ensuring there are services to be able to refer onto.

**Referral**

- GPs report inconsistent services being available to them to refer patients in a timely fashion.
- The report made recommendations for improvements to community and specialist services, and for urgent attention to be given to services available in the community via primary care. RCGP Wales fully supports this. It is particularly worrying that the report states there has been a regression in primary care services over recent years.
- There is a particular problem around a lack of talking and psychological therapies. If a GP feels a patient is not accepted by CAMHS or too young for anti-depressants, but there are no talking therapies available, then their options are extremely limited.
- When patients are referred to CAMHS lengthy waiting times are common. The report outlined the current CAMHS target of 80% of patients receiving an appointment with 28 days, stating it has been missed every month since March 2017. This leaves a patient without much needed support, potentially worsening their problems, bringing them back to the GP, who can only try to do what they have already done.
- Some GPs report that there is a delay in rejection from CAMHS. If CAMHS deems a patient does not meet their criteria – perhaps recommending to primary mental health – this needs to be communicated to a GP immediately. Otherwise a patient is left without support and without someone trying to obtain support for them as they believe it is in order. Processes need to be made more efficient.
- RCGP Wales is particularly supportive of recommendations 11 and 20 of the report. Recommendation 11 calls for consistent pathways for all specialist CAMHS services. Recommendation 20 calls for a national action plan for the delivery of psychological therapies for children and young people.

**Transition between child and adult services**

- In our written and oral evidence, RCGP Wales raised concerns about the transition between child and adult services.
- Some child services have no clear adult equivalent. Older teenagers may not engage with either paediatric or adult services.
- One case study from the report highlighted difficulties in this area very well:

> ***"We were expected to become adults overnight."***
>
> Three young people wrote to us about their experiences as former service users. They described moving from children to adult services as "scary". They did not know what to expect and felt CAMHS was not pro-active in preparing them. They pointed out that when they turned 18, they were "expected to have become adults overnight", while in reality they felt they were "jumping off a cliff edge". They encouraged children and adult services to communicate more effectively in order to bridge the gap between them both.

- We support recommendation 19 in the report calling for greater engagement with the transition period.

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-EM-2730-18

Lynne Neagle AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

8 Awst 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf, ynghylch gwaith dilynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei Ymchwiliad i Waith Ieuenctid. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith gwerthfawr rydych yn parhau i'w wneud i graffu ar ein dull gweithredu strategol. Roedd yn gysur hefyd i ddarllen bod rhanddeiliaid yn cydnabod bod yna gynnydd yn sgil eich gwaith, a'u bod yn croesawu ffocws newydd ar waith ieuenctid. Ond fel rydych yn ei nodi, mae yna lawer o waith eto i'w wneud.

Mewn ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd gennych, rwy'n falch o gael rhoi'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid

Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer cyflawni'r strategaeth newydd yn heriol, ond rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i'w gweithredu. Er mwyn gwneud hyn mewn ffordd ystyrlon, rhaid inni wrando ar safbwyntiau pobl ifanc a'r sector, gan gynnwys cyngor Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid ac, unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Fel y cytunwyd eisoes, bydd datblygu'r strategaeth yn broses o roi cynnig ar sawl cam dro ar ôl tro, felly, gan ymateb i'r dystiolaeth a ddaw i law ac addasu yn unol â hynny.

O ran cynnwys pobl ifanc mewn ffordd ystyrlon yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth, maent eisoes wedi chwarae rôl hollbwysig, wrth lunio adroddiad Margaret Jervis, 'Ein Dyfodol', ac wrth adolygu'r strategaeth gyfredol ar waith ieuenctid. Fodd bynnag, dim ond dechrau cyfnod ehangach o ymgysylltu yw hwn, cyfnod sy'n rhoi'r lle canolog i bobl ifanc yn y strategaeth. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i mi, ac i Keith Towler yn ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

Mae Keith eisoes wedi amlinellu i'w swyddogion ei gynlluniau i gynnal arolwg ieuenctid i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ymhellach sut y bydd yn datblygu'r gwaith hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cytuno nad yw'r strategaeth ynddi ei hun yn ddigon i ysgogi lefel uwch o atebolrwydd ar draws gwaith ieuenctid yng Nghymru; y bwriad erioed yw seilio'r strategaeth hirdymor newydd ar gynllun gweithredu tymor byrrach clir ag iddo amserlen glir. Byddwn hefyd yn ystyried dogfen arall sy'n helpu pobl ifanc i ddeall yr hyn y mae'r strategaeth hon yn ei olygu iddyn nhw.

Asesiadau Digonolrwydd

Bydd y gwaith hwn yn dechrau'n fuan, ac rwy'n rhagweld y bydd yn rhywbeth y bydd y Bwrdd newydd am fwrw ymlaen ag ef yn weddol gyflym. Fodd bynnag, rhaid datblygu hyn â gweledigaeth glir ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru a gaiff ei lywio gan bobl ifanc eu hunain. Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i'r cysyniad o Asesiadau Digonolrwydd, ond rhaid gwneud y gwaith hwn ar yr adeg briodol.

Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro

O ran y Bwrdd newydd, roeddwn yn falch o gyhoeddi enw Keith Towler fel y Cadeirydd newydd, ac rydym yn gweithio i benodi gweddill aelodau'r Bwrdd cyn gynted â phosibl yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus syml i sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd agored a thryloyw. Rwyf wedi dweud wrth Keith nad wyf yn disgwyl i hyn fod yn broses o benodi'r unigolion mwyaf amlwg, ac rwy'n gwybod ei fod yn ystyried o ddifrif pwy yw'r unigolion priodol ar gyfer y bwrdd. Mae am sicrhau y bydd yr aelodau ar lefel sy'n gallu dylanwadu ar y sector, y bydd digon o amrywiaeth i sicrhau gwybodaeth ac arbenigedd lle bo'i angen, a'u bod wedi ymrwymo i ysgogi newidiadau cadarnhaol.

Mae Keith yn ystyried sut y gall pobl ifanc ddylanwadu ar waith y bwrdd, ond mae'n ymwybodol nad yw'r arfer blaenorol o benodi person ifanc i wneud dim mwy nag eistedd mewn cyfarfodydd yn ffordd dda o sicrhau bod trawstoriad o bobl ifanc yn dylanwadu ar waith y Bwrdd; rwy'n gwybod ei fod yn parhau i ystyried y dull gweithredu.

Yn ogystal, mae Keith wedi dweud mai ei brif flaenoriaeth i ddechrau fydd cynllun cyfathrebu er mwyn i'r sector ddeall gwaith y bwrdd, bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu'r bwrdd, a chynllun gwaith clir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Ymgysylltu â phobl ifanc

Rwy'n ystyried bod mewnbwn pobl ifanc yn hollbwysig er mwyn datblygu strategaeth ystyrlon. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae yna nifer o ddulliau yn cael eu trafod ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd, ac rwy'n disgwyl gweld camau yn cael eu cymryd yn fuan.

Cyllido

Bydd sut mae cyllid gwaith ieuenctid Cymru yn cael ei wario yn rhan o drafodaethau'r Bwrdd, unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn. Byddwn yn disgwyl mwy o fanylion pan fydd cynllun gwaith ar gael.

Diwygio'r cwricwlwm

Cefais gyfarfod gyda'r Prif Swyddogion Ieuenctid ym mis Gorffennaf ac roeddent yn awyddus i drafod eu cyfraniad at ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Roeddent yn dweud bod yna broblemau i'w datrys o ran sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei ystyried mewn ffordd briodol. Mae'n bwysig iawn bod ein cwricwlwm newydd yn adlewyrchu rôl hollbwysig gwaith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial.

Yn ogystal, mae swyddogion tîm Diwygio'r Cwricwlwm wedi cwrdd â Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid, sy'n cynnwys aelodau o Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar ddatblygiadau, a'u gwahodd i roi adborth ar ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd y swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r sector ieuenctid fel rhan o'r gwaith ehangach o ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi'i gynllunio wrth ddatblygu'r cwricwlwm, ac maent wedi cynnig cyfarfod yn fwy rheolaidd pe byddai hynny o gymorth, gan gynnwys mynd i un o gyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid yn y dyfodol, neu'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro maes o law.

Cynrychiolir y sector gwaith ieuenctid ar Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru hefyd, a sefydlwyd i gynnig cyngor, gwasanaeth craffu a her allanol wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu. Fel rhan o'r cylch gwaith,  disgwylir i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w sector a'r rheini y maent yn eu cynrychioli ynghylch y cwricwlwm newydd, a chyfleu safbwyntiau'r rhanddeiliaid i Lywodraeth Cymru.

Yn olaf, hoffwn ddweud fy mod yn falch bod y pwyllgor yn parhau i ymddiddori mewn gwaith ieuenctid.  Mae'r datblygiadau hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith, gan weithio gyda phobl ifanc a'r sector i gryfhau a chodi proffil gwaith ieuenctid yng Nghymru. Byddwn yn hapus i roi unrhyw wybodaeth ichi'n rheolaidd.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Eluned Morgan AC**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

16 Awst 2018

Annwyl gyfeillion

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20**

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn ystod tymor yr hydref.

*Tystiolaeth ysgrifenedig*

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn **dydd Iau 25 Hydref 2018**.

*Tystiolaeth lafar*

Byddai'r Aelodau hefyd yn ddiolchgar pe gallech fynychu sesiwn tystiolaeth lafar 90 munud **ddydd Iau 8 Tachwedd 2018 (09:00 - 10:30).**

*Y dull*

Fel y blynyddoedd diwethaf, byddwn yn seilio ein dull ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb.

Rydym yn cydnabod, er bod y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg yn cydweddu'n llwyr â'ch portffolios, bod rhai o linellau cyllideb y Gweinidog yn eistedd y tu allan i bortffolio'r Pwyllgor hwn ac y bydd gwaith craffu arall yn canolbwyntio arnynt.

Byddwn hefyd yn ceisio tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Rydym hefyd yn bwriadu cwrdd â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi ystyriaeth ar y cyd i faterion sy'n ymwneud ag asesiadau effaith.

Byddwn yn cysylltu â'n chwaer-bwyllgorau mewn perthynas â meysydd sy'n gorgyffwrdd.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**ATODIAD - CAIS AM WYBODAETH YSGRIFENEDIG CYN CRAFFU AR Y GYLLIDEB DDRAFFT**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

1. **Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb**

   Yn llythyr y Pwyllgor ar 15 Mai 2018, gofynnodd y Pwyllgor, yng nghyllideb ddrafft 2019-20 a'r blynyddoedd dilynol, fod esboniad naratif tryloyw (yn ogystal â darluniad rhifol) yn cael ei ddarparu o'r canlynol:

   - gostyngiadau/dileu neu gynyddu/ychwanegu meysydd penodol o'r gyllideb ddrafft o'i chymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. gostwng grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu);
   - pa gyfran y mae'r newid hwn i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei gynrychioli (e.e. defnyddio'r Grant Gwisg Ysgol fel enghraifft, egluro bod hyn yn golygu bod y Grant cyfan yn cael ei ddileu); a
   - lle'n union mae unrhyw newid yn cael ei wneud yn y gyllideb ddrafft, a ph'un a fydd arian yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill.

2. **Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

   - Sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg, gan gynnwys dadansoddiad ac eglurhad o newidiadau arwyddocaol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 (Mehefin 2018).
   - Dadansoddiad o'r MEG Addysg ar gyfer 2019-20 a'r MEG dangosol ar gyfer 2020-21 (os yw ar gael) yn ôl Ardal Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb (BEL), gyda dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19, rhagolygon alldro 2018-19, ac alldro terfynol 2017-18 i gyd wedi'u cynnwys.

   *Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rhain yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen.*

3. **Blaenoriaethau addysg**

   - Gwybodaeth am sut y mae'r MEG Addysg yn cyd-fynd â chamau gweithredu a blaenoriaethau perthnasol allweddol Llywodraeth Cymru, ac yn cael blaenoriaethu, gan gynnwys y canlynol:
     - Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol a'r cynlluniau gweithredu economaidd a chyflogadwyedd cysylltiedig;

- Y deg blaenoriaeth addysg y cytunwyd arnynt gyda'r Prif Weinidog ym mis Mehefin 2016; ac
- Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol - Cynllun Gweithredu.

- Asesiad gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y graddau y mae'n credu bod y MEG Addysg yn cynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu allweddol y soniwyd amdanynt uchod, a gwybodaeth am unrhyw drafodaethau parhaus gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch y lefel angenrheidiol o adnoddau.
- A fu unrhyw flaenoriaethu neu wahaniaethu pellach o ran dyrannu adnoddau rhwng y blaenoriaethau a'r camau gweithredu y cyfeirir atynt uchod. A oes unrhyw themâu cyson y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu targedu adnoddau iddynt yn gyffredinol, ar draws y MEG Addysg cyfan?
- Pa asesiad a wnaed o werth am arian a fforddiadwyedd pob un o'r galwadau uchod ar adnoddau a sut y caiff eu cost-effeithiolrwydd ei fonitro.
- Manylion am unrhyw ymarferion cost-cyfle a wneir mewn perthynas â'r galwadau uchod ar adnoddau.

**4. Monitro'r gyllideb**

- Pa brosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, gan nodi'r diffygion a'r gwargedion posibl, a chymryd camau adferol neu ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion.
- Manylion am unrhyw newidiadau i'r MEG Addysg sydd eisoes wedi'u cynllunio yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2018-19.

**5. Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd**

- Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i'r MEG Addysg, a sut y mae'r Adran yn bwriadu rheoli unrhyw effaith negyddol ar gyllidebau o fewn y portffolio a/neu sut y mae am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi.
- Rhagwelir y bydd y swm o arian yr UE y bydd MEG Addysg 2019-20 yn dibynnu arno a'r symiau a'r dibenion sy'n gysylltiedig ag ef, wedi'u dadansoddi yn ôl arian yr UE sy'n ddiogel pe na bai unrhyw gytundeb ymadael ym mis Mawrth 2019 ac arian yr UE nad yw'n ddiogel.
- Manylion am unrhyw gynlluniau wrth gefn mewn perthynas ag arian yr UE pe na bai unrhyw gytundebau gyda'r UE ar y pwynt y mae'r DU yn ymadael â'r UE.

**6. Costau deddfwriaeth**

- Unrhyw symiau o fewn cyllideb 2019-20 a fwriedir ar gyfer gweithredu diwygiadau PCET, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ddeddfwriaeth.

- Diweddariad ar unrhyw gostau parhaus i'r MEG Addysg o weithredu deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad a'r goblygiadau ariannol i gyllideb 2019-20.
- Darpariaeth y gyllideb ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.
- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth yn 2019-20

## 7. Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth ynghylch pa ystyriaeth a roddwyd i hawliau plant, materion o ran cydraddoldeb (gan gynnwys cydraddoldeb rhwng y rhywiau), cynaliadwyedd a'r Gymraeg wrth bennu dyraniadau'r gyllideb, ac yn benodol:

- Copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a gynhaliwyd gan yr Adran i lywio'r dyraniadau yn y MEG Addysg drafft ar gyfer 2018-19. Os na chynhaliwyd CRIA penodol, y rhesymau dros hyn a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig arall.
- Sut y mae'r Adran yn defnyddio'r fframwaith newydd ar gyfer asesiad effaith sy'n cael ei ddatblygu, a'i gymhwyso i benderfyniadau ynghylch dyraniadau o fewn y MEG Addysg.
- Pa ystyriaeth a roddwyd i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wrth wneud dyraniadau i linellau'r gyllideb o fewn y MEG Addysg.
- Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y MEG Addysg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

## 8. Meysydd penodol

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth ynghylch y meysydd penodol a ganlyn, os nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y sylwadau ar bob cam gweithredu.

### *Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion*

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion wedi'i gynnwys yn y Setliad Llywodraeth Leol ac felly mae'n dod o'r MEG Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gofyn am y canlynol:

- Asesiad gan Ysgrifennydd y Cabinet o ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2019-20 a gwybodaeth am unrhyw ffyrdd y mae

Llywodraeth Cymru yn ceisio gwarchod cyllidebau ysgolion, gan gynnwys unrhyw newid rhwng 2018-19 a 2019-20 yn y swm o arian yn y Setliad Llywodraeth Leol a ddyrannwyd yn fwriadol ar gyfer cyllidebau ysgolion.

- Goblygiadau sy'n codi o gynyddu tâl athrawon ac unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb i adlewyrchu hyn.
- Diweddariad ar lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion, gan gynnwys nifer yr ysgolion sy'n rhagori ar y trothwyon ariannol a nodir yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, y gall awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario neu adennill arian dros ben (gan gynnwys dadansoddiad gan awdurdod lleol).
- Gwybodaeth am unrhyw achosion lle mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pwerau hyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

*Cyllid ar gyfer gwella ysgolion*

- Dadansoddiad manwl o sut y dylai'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £100 miliwn mewn safonau ysgolion, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo dros oes y Cynulliad hwn, gael ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn 2019-20.
- Diweddariad ar sut y caiff gwariant y £100 miliwn ei broffilio drwy'r Cynulliad hwn a'r hyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.
- Rhestr o linellau gwariant y gyllideb, ar sail unigol a chyfan, o fewn y MEG Addysg sy'n cyllido codi safonau ysgol yn bennaf, ar gyfer 2016-17, 2017-18, 2018-19 a 2019-20 (yn unol gydag Argymhelliad 31 o'n hadroddiad ar yr ymchwiliad, *Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol*).

*Lleihau effaith amddifadedd a thlodi*

- Sut y mae'r MEG Addysg yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd a thlodi a'i effaith ar gyflawniad addysgol.
- Sut y mae argymhellion ein hadroddiad ar ein hymchwiliad *Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol*, wedi dylanwadu ar ddyraniad y MEG Addysg ar gyfer 2019-20.
- Diweddariad ar gronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion a sut y caiff ei ddyrannu a'i ddosbarthu, gan gynnwys faint o deuluoedd sy'n elwa.

*Y gweithlu addysg*

- Manylion am ddyraniadau'r gyllideb i ariannu diwygiadau Llywodraeth Cymru ar Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a datblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg, a'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon.

- Gwybodaeth am unrhyw arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.
- Darpariaeth y gyllideb ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol o'r cynlluniau peilot clwstwr athrawon cyflenwi ac ystyriaeth barhaus arall o ddiwygiadau perthnasol.

*Cwricwlwm i Gymru*

- Diweddariad ar gyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dylunio'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Cyllid arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer y cwricwlwm newydd, o ystyried ei bod yn rhaglen waith hirdymor, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cynaliadwyedd y cyllid.

*Maint dosbarthiadau babanod*

- Diweddariad ar ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod; faint o ysgolion, dosbarthiadau a disgyblion fydd yn elwa yn 2019-20 a 2020-21.
- Diweddariad ar ddyraniadau refeniw £16 miliwn a'r cronfeydd cyfalaf £20 miliwn.
- Manylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu gwerth am arian y buddsoddiad mewn lleihau maint dosbarthiadau babanod, sut y bydd yn mesur llwyddiant yr arian, a pha dargedau neu ganlyniadau dymunol sy'n cael eu pennu.

*Lleoedd dros ben ac ysgolion bach/gwledig*

- Diweddariad ar y grant ysgolion bach a gwledig, sut y caiff ei ddyrannu a'r hyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.
- Sut y mae'r grant yn cael ei werthuso am werth am arian.
- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth y gyllideb sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r Cod newydd Trefniadaeth Ysgolion a'r newidiadau polisi y mae'n eu cwmpasu.

*Y Grant Gwella Addysg*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb yn 2019-20 a chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.
- Copi o'r fframwaith canlyniadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro effaith y Grant Gwella Addysg ac unrhyw faterion o ran canllawiau i gonsortia rhanbarthol, neu ganllawiau ganddynt.

- Dyraniadau i bob consortiwm rhanbarthol ar gyfer pob blwyddyn ers 2015-16 a dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2019-20.
- Cadarnhad o'r dibenion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Grant Gwella Addysg gael ei ddefnyddio ar ei gyfer ac unrhyw asesiad sydd ar gael ar faint a gaiff ei wario ar bob un o'r rhain yn y drefn honno.
- Gwybodaeth am y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gonsortia ac awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg.

*Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

- Diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y dull o gyllido cefnogaeth i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chyfanswm y cyllid a ddarperir.
- Sut y mae defnydd ac effaith yr arian hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso.
- Y fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu'r cyllid trosiannol gwerth £8.7 miliwn yn 2018-19 a'r dull arfaethedig ar gyfer 2019-20.

*Y consortia rhanbarthol*

- Manylion am faint o arian Llywodraeth Cymru sy'n cael ei sianelu drwy'r consortia rhanbarthol, gan gynnwys dadansoddiad (lle bo modd) o'r gwahanol ffrydiau cyllido ac o ba linellau gwariant y gyllideb y cânt eu hariannu.
- Gwybodaeth am faint o'r arian a dderbynnir gan y consortia a gedwir yn ganolog gan y consortia a faint sy'n cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol ac ysgolion.
- Diweddariad ar unrhyw asesiadau a wnaed o effaith a gwerth am arian y consortia.

*Estyn*

- Gwybodaeth am y broses ar gyfer pennu dyraniad cyllideb Estyn, gan gynnwys pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda'r arolygiaeth ar ei lefelau cyllid gofynnol.
- Unrhyw oblygiadau i gyllideb Estyn neu linellau cyllideb Llywodraeth Cymru o adroddiad yr Athro Donaldson, Arolygiaeth Ddysgu, ac ymateb Llywodraeth Cymru.

*Cymwysterau*

- Y dyraniad i Cymwysterau Cymru a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Gwybodaeth am y broses ar gyfer pennu dyraniad cyllideb Cymwysterau Cymru, gan gynnwys pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda'r rheoleiddiwr ar ei lefelau cyllid gofynnol.

*Addysg cyfrwng Cymraeg*

- Darpariaeth y gyllideb i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) awdurdodau lleol.
- Sut y bydd camau gweithredu cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i tharged o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?
- Proffil amser y £4.2 miliwn a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2017 i gynyddu gallu cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysgu (a ariennir gan BEL Safonau Codi Ysgolion yn 2018-19) - A yw hyn yn cael ei ailadrodd yn 2019-20?

*DS Gall gwaith craffu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar oblygiadau'r gyllideb ddrafft i'r Gymraeg yn fwy cyffredinol hefyd gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg.*

*Anghenion Dysgu Ychwanegol*

- Goblygiadau ariannol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20.
- Darpariaeth y gyllideb i gefnogi'r Rhaglen Trawsnewid ADY.
- Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer ariannu hyfforddiant seicolegwyr addysgol yng Nghymru.

*Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc*

- Y goblygiadau ariannol i'r MEG Addysg o ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad Cadernid Meddwl, gan gynnwys yr alwad am adnodd a neilltuir i ysgolion ddod yn ganolfannau cymunedol o gefnogaeth draws-sector a chroesbroffesiynol ar gyfer lles a gwydnwch emosiynol.
- Gwybodaeth am yr arian ar gyfer cynghorwyr ysgol a staff eraill yn yr ysgol sy'n cefnogi anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl y disgyblion.

*Gwaith ieuenctid*

Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb o fewn y MEG Addysg i gefnogi Gwaith Ieuenctid, gan gynnwys:

- Unrhyw newidiadau a ddigwyddodd i'r dyraniad o £3.5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 2018-19 a 2019-20 o ganlyniad i'r adolygiad o waith Margaret Jervis

ar Ymestyn Hawliau, fel y cyfeirir ato ym mhapur y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19.

- Sut y mae effaith y gostyngiad o 10 y cant i'r Grant Cymorth Ieuenctid i £2.5 miliwn yn 2018-19 wedi cael ei fonitro, fel y cyfeirir ato ym mhapur y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Beth oedd yr effaith?
- Dyraniadau ar gyfer y grantiau a ganlyn a gwybodaeth am sut y mae'r dyraniadau hyn wedi'u llywio gan yr adolygiadau ohonynt, a adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2017 ac y cyfeirir atynt ym mhapur y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Hefyd, rhowch wybodaeth am y bwriadau tymor hwy o ran y grantiau hyn.
  - Y Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid
  - Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuenctid Cymru (CWVYS)
  - Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru)
  - Grant y Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO)
  - Sut y mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r broses o lywio'r penderfyniadau ynghylch y dyraniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Gyllideb Ddrafft.

*Y cynnig gofal plant*

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o oblygiadau cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru i'r MEG Addysg, er enghraifft cyllid grant y Cyfnod Sylfaen, cyllid cyfalaf a'r berthynas â chyllid yn y Grant Cynnal Refeniw.

*Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a niferoedd y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yma.
- Eglurhad o p'un a fydd Band A wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2019 ac amserlen Band B, gan gynnwys manylion am unrhyw gyfnod pontio rhyngddynt.
- Y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y defnydd o'r Model Buddsoddi Cyfnewidiol ar gyfer Band B a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr arian sydd ar gael.

*Addysg Bellach*

- Dadansoddiad manwl o'r BEL Addysg Bellach i'w llinellau cyllido cyfansoddol, gan gynnwys symiau'r alwad gyntaf (ymrwymiad sefydliad addysg bellach 2018/19 sy'n weddill), yr ail alwad (Chweched Dosbarth), y trydydd galwad

(swm i gael dyraniadau sefydliadau addysg bellach) a galwadau ychwanegol arni.

- Manylion am y broses gynllunio a sut y bydd setliad y gyllideb yn bodloni rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu addysg i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed o dan Fesur Dysgu a Sgiliau 2009 a'r rhai sy'n ceisio cyflawni'r Nodau Lles.
- Mae copïau o ganllawiau Tybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach y ddwy flynedd ddiwethaf wedi'u cyhoeddi i sefydliadau addysg bellach.
- Manylion am y llinell sylfaen gynllunio arfaethedig sydd i'w defnyddio i ganiatáu i'r dyraniad cyllid craidd cyfansymiol ar gyfer y sector sefydliadau addysg bellach ar gyfer 2019/20 gael ei ddeillio: rydym yn deall, gan fod hyn fel arfer yn seiliedig ar ffigur y flwyddyn flaenorol, y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael.
- Manylion am unrhyw ddyraniadau arfaethedig ar gyfer 2019/20 (neu os nad oes penderfyniad yn eu cylch eto, yr adnoddau sydd ar gael yn y gyllideb ar gyfer 2019-20) ar gyfer sefydliadau addysg bellach y tu hwnt i 'arian craidd', gan gynnwys manylion am yr holl gyllid nad yw'n graidd ac sydd wedi'i neilltuo (gan gynnwys y contractau dysgu yn seiliedig ar waith a arweinir gan sefydliadau addysg bellach).
- Manylion am y cynnydd cyffredinol a fwriedir ar gyfer "cyfradd unedau" (cyllid craidd) i'w gymhwyso ar gyfer 2019/20 gyda rhesymeg ar gyfer y ffigur uwchraddio ac asesiad o ran ei ddigonolrwydd, gan ystyried cynnwys y Rhagdybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach perthnasol, gan gynnwys y dyfarniad cyflog tebygol ar draws y sector.
- Y rhesymeg dros unrhyw wyriad neu wyriad arfaethedig rhwng y rhagdybiaethau cynllunio y gofynnir i sefydliadau addysg bellach eu gwneud yn eu rhagolygon a'r cynnydd "cyfradd unedau" arfaethedig (cyllid craidd) ar gyfer 2019/20, yn enwedig unrhyw ragdybiaethau sy'n ymwneud ag eitemau sylfaen cost sefydlog iawn fel staffio, dyfarniadau cyflog a phensiynau.
- Manylion am y dyraniad dangosol i sefydliadau addysg bellach ar gyfer 2020/21 a 2022/23 yn unol â'r setliad dangosol tair blynedd arfaethedig yn y Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 fel yr argymhellwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017. Os nad yw ar gael, y rhesymau pam na chyflwynwyd setliadau dangosol tair blynedd.
- Manylion am y rhaniad a ragwelir mewn cyllid craidd a chyllid nad yw'n graidd rhwng darpariaeth Addysg Bellach amser llawn a rhan-amser, gan gynnwys asesiad wedi'i ddiweddaru o sut y bydd y setliad cyllideb i sefydliadau addysg bellach yn ategu'r gorchymyn polisi dysgu gydol oes sydd, yn ôl Llywodraeth

Cymru 'yn bwysicach nag erioed' [Ffyniant i Bawb, tudalen 18]. Sut y mae Llywodraeth Cymru wedi asesu lefel yr arian rhan-amser i sicrhau ei fod yn ddigonol i wneud cynnydd rhesymol tuag at amcanion lles Ffyniant i Bawb a themâu allweddol sy'n ymwneud â dysgu a dysgu gydol oes?

- Manylion am y codiad arfaethedig ar gyfer darparu darpariaeth mewn ardaloedd anghysbell a difreintiedig ar gyfer 19/20.
- Asesiad sy'n ymwneud â digonolrwydd y codiad ar gyfer ardaloedd anghysbell, gan ystyried sylwadau a wnaed gan ddau sefydliad addysg bellach yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2017 nad yw'n cynnwys cost darparu darpariaeth yn yr ardaloedd hyn.
- Manylion am y codiad arfaethedig ar gyfer darparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar gyfer 2019/20.
- Manylion am unrhyw arian cyfalaf i sefydliadau addysg bellach.
- Rhagolwg ariannol cyfunol ar gyfer sefydliadau addysg bellach dros y tair blynedd nesaf.
- Manylion ynglŷn â dyraniad Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac asesiad ynghylch a yw strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru o ddiogelu'r cyllid ar gyfer Addysg Sylfaenol i Oedolion ac ESOL yn parhau'n berthnasol a pham.

*Addysg Uwch*

- Rhagolwg ariannol cyfunol ar gyfer y sector Addysg Uwch dros y tair blynedd academaidd nesaf o 2018/19 ymlaen (rydym yn deall bod y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno gan sefydliadau i CCAUC ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, gan olygu ein bod yn rhagweld y bydd y wybodaeth hon ar gael).
- Manylion am ddyraniad dangosol 2019/20 CCAUC, gan gynnwys manylion a symiau unrhyw elfennau sydd wedi'u neilltuo o'r dyraniad hwn.
- Manylion am yr alwad ar y MEG Addysg ar gyfer 2019-20 ar gyfer cyfran Ebrill-Gorffennaf o ddyraniad CCAUC ym mlwyddyn academaidd 2018/19, ac arwydd a yw hyn yn gwyro oddi wrth ddyraniad dangosol CCAUC ar gyfer 2019-20. Deallwn fod CCAUC eisoes wedi defnyddio rhagolygon dangosol ar gyfer cyllideb 2019-20 i sicrhau ei gyllid ar gyfer 2018/19.
- Manylion ynghylch unrhyw arwydd ynghylch sut y mae'r sector yn bwriadu cymhwyso'r toriad gwerth £12.5 miliwn mewn cyllid ar gyfer 2018/19 a fydd yn effeithio ar un neu fwy o'r llinellau ariannu ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd, pynciau drud a darpariaeth rhan-amser sy'n seiliedig ar gredydau, ac a yw cyllideb 2019-20 yn gwneud darpariaeth i adfer yr arian hwn yn ystod rhan olaf blwyddyn academaidd 2018/19? Os felly, rhowch fanylion am y sail (telerau ac amodau ac ati) y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu i CCAUC.

- Asesiad o'r effaith a gafodd ac y bydd toriad CCAUC gwerth £22.5 miliwn ar gyfer 2017/18 a thoriad CCAUC gwerth £12.5 miliwn ar gyfer 2018/19 yn ei chael ar gytundeb Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i gynnal cyllid ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd mewn termau real am bum mlynedd mewn ymateb i'r Adolygiad Diamond.
- Manylion am sut y mae sefydliadau wedi defnyddio'r arian a ddarparwyd gan y pecyn cymorth Meistr Interim a ddyrannwyd i CCAUC ar gyfer 2018/19.
- A fydd y Cyllid Lliniaru Ffioedd gwerth £10 miliwn y mae CCAUC yn bwriadu ei ryddhau ar gyfer 2018/19 yn parhau i flynyddoedd academaidd yn y dyfodol a manylion am unrhyw symiau yn y gyllideb ar gyfer 2019-20 sy'n ymwneud â chyllid lliniaru ffioedd y tu hwnt i 2018/19.
- Manylion am y prosiectau a gytunwyd gyda CCAUC ac a ymgymerwyd gan sefydliadau gan ddefnyddio'r Gronfa Newid Strategol gwerth £20 miliwn.
- Manylion am unrhyw symiau yn 2019-20 a fwriedir ar gyfer cyflwyno Prentisiaethau Gradd o ystyried datganiad CCAUC y bydd rownd ariannu 2019/20 ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn 'fwy cynhwysfawr'.

*Gweithredu Diamond a Reid*

- Yn ei chyflwyniad diwethaf o ran craffu ar y gyllideb i'r Pwyllgor hwn, rhagwelodd Llywodraeth Cymru y byddai cost y Grant Ffioedd Dysgu yn gostwng o £223 miliwn ar gyfer 2018-19 i £129.9 miliwn ar gyfer 2019-20. A fyddech cystal â diweddaru'r wybodaeth hon ar gyfer 2019-20 a thu hwnt, ac ystyried y defnydd o unrhyw arbedion yng nghostau'r Grant Ffioedd Dysgu yn y gyllideb ar gyfer 2019-20. Yn benodol, rhowch fanylion am unrhyw symiau sydd (a elwir weithiau yn Ddifidend Diamond), ac na ddylid eu 'hail-fuddsoddi' i'r sector Addysg Uwch a lle y cawsant eu hailddyrannu.
- Manylion am unrhyw symiau o fewn y gyllideb ar gyfer 2019-20 a fwriedir i ariannu ail a thrydydd argymhelliad adroddiad Reid. Os na ddyrannwyd unrhyw arian i argymhellion Reid, nodwch y rheswm dros wneud hynny ac asesiad o sut y gallai unrhyw oedi wrth ariannu argymhellion yr adolygiad effeithio ar gyllid ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac mae'r sector yn galw am gynnydd cyflym ar argymhellion yr adroddiad.
- Gwariant a ragwelir yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 ar ddarparu Benthyciadau Meistr a Benthyciadau Doethuriaeth.
- Gwariant a ragwelir yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 ar Grant Cynhaliaeth Diamond a'r Grant Cynhaliaeth Sylfaenol, gan gynnwys gwariant a ragwelir ar gyfer myfyrwyr a fydd yn astudio mewn sefydliadau yn y DU nad ydynt yng Nghymru.

*Cymorth Myfyrwyr - Cyffredinol*

- Gwariant a ragwelir yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 ar grantiau cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru sy'n weddill, gan gynnwys Addysg Bellach - Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Huw Irranca-Davies AC**

16 Awst 2018

Annwyl gyfeillion

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20**

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn ystod tymor yr hydref.

*Tystiolaeth ysgrifenedig*

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn **dydd Iau 25 Hydref 2018**.

*Tystiolaeth lafar*

Byddai'r Aelodau hefyd yn ddiolchgar pe gallech fynychu sesiwn tystiolaeth lafar 90 munud **ddydd Iau 8 Tachwedd 2018 (10:45 - 12:15).**

*Y dull*

Fel y blynyddoedd diwethaf, byddwn yn seilio ein dull ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Rydym hefyd yn bwriadu cwrdd â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi ystyriaeth ar y cyd i faterion sy'n ymwneud ag asesiadau effaith. Byddwn yn cysylltu â'n chwaer-bwyllgorau mewn perthynas â meysydd sy'n gorgyffwrdd.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**ATODIAD - CAIS AM WYBODAETH YSGRIFENEDIG CYN CRAFFU AR Y GYLLIDEB DDRAFFT**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

**1. Y dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019-20 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, yn ôl Ardal Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
- Dyraniadau MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Dangosol ar gyfer 2020-21 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau ers Cyllideb Ddrafft 2019-20 ac eglurhad ohonynt, ac ers y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2018).
- dyraniadau'r Gyllideb Atodol Gyntaf, rhagolygon alldro 2018-19, a'r alldro terfynol ar gyfer 2017-18.

*Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rhain yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen.*

**2. Y dyraniadau sy'n berthnasol i bortffolio cyfrifoldebau'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.**

- Manylion am y dyraniadau i'r holl Ardaloedd Rhaglenni Gwariant, Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant Cyllideb sy'n benodol i blant a phobl ifanc o fewn portffolio polisi'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, i gynnwys:
  - o fewn pa MEG Llywodraeth Cymru y mae'r dyraniadau perthnasol wedi'u lleoli;
  - gwybodaeth am newidiadau arwyddocaol i'r dyraniadau hyn ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 (Mehefin 2018) ac eglurhad ohonynt;
  - manylion am y Camau Gweithredu a Llinell Gwariant y Gyllideb ar gyfer 2019-20 ac yn ddangosol ar gyfer 2020-21 (os ydynt ar gael);
  - dyraniadau'r Gyllideb Atodol Gyntaf, rhagolygon alldro 2018-19, a'r alldro terfynol ar gyfer 2017-18.

*Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rhain yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen.*

- Sylwadau manwl am alinio cyfrifoldebau cyllideb a pholisi portffolios y Gweinidogion fel maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, ac yn benodol mewn perthynas â'r canlynol:
  - y Camau Atal, Ymyrraeth Gynnar a Chefnogi o fewn y MEG Llywodraeth Leol yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018;
  - cyllid cyfalaf Dechrau'n Deg;
  - cyllid cyfalaf y cynnig gofal plant;
  - cyllid ar gyfer gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal, mabwysiadu, maethu, diogelu, a phlant anabl o fewn y Grant Cynnal Refeniw/MEG Llywodraeth Leol;
  - diweddariad ar y 'Rhaglen Cyllido Hyblyg' a'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi arfaethedig, gan gynnwys asesiad o'r effaith hyd yma ar ddyraniadau ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant a Chwarae (gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn flaenorol) a'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi yn y saith awdurdod lleol sy'n treialu'r dull hwn yn 2018-19 a'r 15 awdurdod lleol sy'n weddill gyda 15 y cant o hyblygrwydd.

**3. Tryloywder y dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc**

- Yn llythyr y Pwyllgor ar 15 Mai 2018, gofynnodd y Pwyllgor, yng nghyllideb ddrafft 2019-20 a'r blynyddoedd dilynol, fod esboniad naratif tryloyw (yn ogystal â darluniad rhifol) yn cael ei ddarparu o'r canlynol:
  - gostyngiadau/dileu neu gynyddu/ychwanegu meysydd penodol o'r gyllideb ddrafft o'i chymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. gostwng grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu);
  - pa gyfran y mae'r newid hwn i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli; a
  - lle'n union mae unrhyw newid yn cael ei wneud yn y gyllideb ddrafft, a ph'un a fydd arian yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill.
- Rydym hefyd yn gofyn am eglurhad o'r modd y cyflwynwyd Cyllideb Ddrafft 2019-20 i adlewyrchu argymhelliad 11 adroddiad y Pwyllgor hwn ar Gyllideb Ddrafft 2018-19, a oedd yn cynnwys galwadau am y canlynol:

- Llywodraeth Cymru i gyflwyno'n gliriach yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft sut y mae adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu dyrannu;
- Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n glir fel y gallwn fonitro eu fforddiadwyedd, i ba raddau y maent yn cael blaenoriaeth, a'u gwerth am arian.

**4. Gwerth am arian a chanlyniadau**

Manylion am y canlynol:

- y broses ar gyfer asesu gwerth am arian a fforddiadwyedd mewn perthynas â phob un o'r dyraniadau sy'n berthnasol i bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog;
- y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau a grantiau drwy gydol y flwyddyn, gan nodi diffygion a gwargedau posibl a'r gallu i ymateb yn y flwyddyn i'r sefyllfa ariannol;
- yr asesiad o ganlyniad gwariant ataliol yn y blynyddoedd blaenorol a sut y mae hyn wedi llywio dyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2019-20;
- y prosesau sydd ar waith i fesur canlyniadau a gwerth am arian mewn perthynas â chyllido Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd sydd wedi trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw;
- y prosesau sydd ar waith i fesur canlyniadau a gwerth am arian mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwasanethau plant sy'n derbyn gofal, mabwysiadu, maethu, diogelu, plant anabl o fewn y Grant Cynnal Refeniw/MEG Llywodraeth Leol.

**5. Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill**

- Manylion am y fframwaith newydd ar gyfer asesu effaith mewn perthynas â dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru fel y mae'r Gweinidog Cyllid yn cyfeirio atynt mewn llythyr i'r Pwyllgor hwn dyddiedig 11 Mehefin 2018.
- Mae copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn llywio'r dyraniadau sy'n berthnasol i bortffolios Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog. *[Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Cyllid ar 15 Mai 2018 gan nodi ei farn ymlaen llaw y dylai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer cyllideb ddrafft 2019-20.]*
- Os na chynhaliwyd CRIA penodol, eglurhad manwl o sut y gellir adeiladu asesiad integredig o effaith yn absenoldeb data o Asesiad annibynnol o'r Effaith ar Hawliau Plant i'w lywio.
- Enghreifftiau o newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o ganlyniad i asesiadau effaith mewn perthynas â'r canlynol:

- Hawliau plant;
- Tlodi plant;
- Cydraddoldeb;
- Cynaliadwyedd;
- Y Gymraeg;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Copi o'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant gan fyrddau iechyd fel rhan o'u prosesau cyllidebu a chynllunio fel y cyfeirir atynt ar dudalen 13 o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor hwn ar Gyllideb Ddrafft 2018-19. Nododd y papur fod hyn wedi'i 'ymgorffori' mewn dwy set o ganllawiau ac y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn.
- Copi o'r CRIA a wnaed ar y gyllideb ar gyfer CAFCASS fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 ac fel y'i derbyniwyd ar dudalen 25 o ymateb Llywodraeth Cymru.
- Goblygiadau'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i ddyraniadau sy'n berthnasol i bortffolios Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog.

**6. Costau deddfwriaeth**

- Dyraniadau o fewn cyllideb ddrafft 2019-20 a fwriadwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol.
- Dyraniadau o fewn cyllideb ddrafft 2019-20 a fwriadwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil Cyllido Gofal Plant.
- Dyraniadau o fewn cyllideb ddrafft 2019-20 a fwriadwyd i gefnogi unrhyw ddeddfwriaeth arall o fewn portffolio Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Unrhyw ddyraniadau sy'n berthnasol i weithredu deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad a'r goblygiadau ariannol i gyllideb 2019-20.

**7. Meysydd polisi penodol o fewn portffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd**

*Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)*

- Gwybodaeth am ddyraniadau ar gyfer CAMHS arbenigol ar gyfer 2019-20 yn ôl bwrdd iechyd.
- Swm a chanran y gwariant iechyd meddwl a neilltuwyd gan fyrddau iechyd a ddyrannwyd ar gyfer CAMHS yn y tair blynedd flaenorol, a chadarnhad o'r blynyddoedd ariannol y mae'r data hyn ar gael amdanynt.
- Pa waith monitro sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o'r gwariant gwirioneddol ar CAMHS gan fyrddau iechyd (yr alldro ar gyfer 2018-19 a'r

gwariant a ragwelir ar gyfer 2019-20) mewn perthynas â blaenoriaethau llywodraeth megis gwasanaethau niwro-ddatblygiadol, ymateb mewn argyfwng CAMHS, mynediad at therapïau seicolegol, gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a phobl ifanc sydd â salwch difrifol ar gam cynnar, fel seicosis.

- Y gyllideb a ragwelir ar gyfer CAMHS ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2019-20, 2020-21 a 2021-22.
- Gwybodaeth am sut y bydd y blaenoriaethau yn y Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael eu cyflawni ar gyfer 2019-20 a faint sydd wedi'i ddyrannu i gyflwyno'r cynllun gwaith (hyd at fis Hydref 2019, pan ddylai'r gwaith gael ei gwblhau).

*Iechyd meddwl amenedigol*

- Y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol, yn cwmpasu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol ar gyfer 2019-20 a'r gyllideb a ragwelir ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22 ac eglurhad o unrhyw newidiadau ers Cyllideb Ddrafft 2018-19.
- Gwybodaeth am y dyraniadau a ddarperir i sefydlu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cleifion mewnol arbenigol.

*Gwasanaethau newyddenedigol*

- Y dyraniadau i gyflawni'r canlynol:
    - y diwygiad diweddaraf i Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan;
    - blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol am y 12 mis nesaf.
- Sut y bydd y dyraniad y gyllideb ar gyfer 2019-20 yn helpu i annog newid/sicrhau gwelliant mewn perfformiad.

*Gweithredu'r Fframwaith Nyrsio Ysgolion*

- Y dyraniadau ar gyfer gweithredu'r fframwaith nyrsio ysgolion diwygiedig a sut y mae hyn yn cymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Unrhyw gostau ychwanegol disgwyliedig mewn perthynas â gweithredu'r fframwaith nyrsio ysgolion *rhan 2 - nyrsio mewn ysgolion arbennig* pan gaiff ei gyhoeddi.

*Gordewdra ymhlith plant*

- Gwybodaeth am y dyraniadau disgwyliedig sydd eu hangen i weithredu'r strategaeth gordewdra genedlaethol arfaethedig, a fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc.

- I ba raddau y mae arian a drosglwyddir i Gyllideb Cymru o'r ardoll diwydiant diodydd meddal yn cael ei ddefnyddio ac y bydd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant ac i wella iechyd plant yng Nghymru.

*Adnoddau ar gyfer y 1000 Diwrnod Cyntaf/Canolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod*

- Y swm a wariwyd yn 2018-19 ac a ddyrannwyd yn 2019-20 i sicrhau adnoddau i Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru.
- Y swm o arian a ddyrannwyd i weithredu gwaith y 1,000 Diwrnod Cyntaf.

**8. Meysydd polisi penodol o fewn portffolio y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.**

Dyraniadau a naratif mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20 ac o'i gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf mewn perthynas â'r canlynol:

- Cymorth i Deuluoedd
- Dechrau'n Deg: Cyllid refeniw a chyfalaf; y sefyllfa ddiweddaraf ar yr arian allgymorth
- Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Gofal plant: y cynnig gofal plant; Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE); datblygu'r gweithlu; cyllid gofal plant arall
- Ardaloedd Plant yn Gyntaf: diweddariad ar y dyraniad neu werthuso'r dull hwn a beth yw canlyniadau'r cyllid hwnnw.
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
- Cymorth rhianta
- Diogelu
- Gwasanaethau ar ffiniau gofal
- Pobl ifanc sy'n derbyn gofal/sy'n gadael gofal
- Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2016-19 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a'i gynllun olynol y bwriedir iddo fod ar waith o fis Mawrth 2019 ymlaen.
- Gwasanaethau mabwysiadu, gan gynnwys cymorth ôl-fabwysiadu
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau eiriolaeth: gan gynnwys dyraniadau i gefnogi'r Dull Cenedlaethol
- Y Gronfa Dydd Gŵyl Dewi
- Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd

- Hawliadau a hawliau plant a phobl ifanc
- Comisiynydd Plant Cymru
- Gwasanaethau a pholisïau chwarae
- Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

20 Awst 2018

Annwyl Kirsty ac Eluned,

**Sesiwn graffu gyffredinol – 10 Hydref 2018**

Diolch am gytuno i ddod i sesiwn graffu ar y cyd ar 10 Hydref 2018. Bydd y sesiwn yn canolbwyntio ar addysg uwch ac addysg bellach.

Cyn y sesiwn, mae rhestr o'r meysydd y byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael papur ysgrifenedig yn eu cylch wedi'i hatodi i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r papur hwn ddod i law bythefnos cyn y sesiwn, erbyn dydd Mercher 26 Medi 2018. O gofio natur gyffredinol y sesiwn, mae'n bosibl y bydd Aelodau yn gofyn cwestiynau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso ichi gysylltu â'r tîm clercio.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**ATODIAD – Gwybodaeth yr hoffem ei chael gennych**

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon papur ysgrifenedig cyn y cyfarfod sy'n trafod y materion a ganlyn:

1. **Diweddariad cyffredinol**

    - y wybodaeth ddiweddaraf am y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn gyffredinol.

2. **Y blaenoriaethau a gytunwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Weinidog**

    Y wybodaeth ddiweddaraf am:

    - hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i mewn i addysg bellach ac addysg uwch – a thrwyddynt – gan gynnwys unrhyw ddangosyddion perfformiad perthnasol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru tuag at y nod hwn;
    - hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA), gan gynnwys:
        - asesiad o effaith penderfyniadau achredu HAGA ar Brifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru; ac
        - asesiad o geisiadau HAGA yn erbyn y targedau ar gyfer mis Medi 2018.
    - y dull o flaenoriaethu'r cymorth ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan gynnwys:
        - y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru tuag at y nod hwn; a
        - gwybodaeth am waith craffu ar effeithiolrwydd y partneriaethau sgiliau rhanbarthol mewn perthynas â darpariaeth addysg.
    - gwybodaeth am ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach a dysgu yn y gweithle, gan gynnwys:
        - unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ymestyn y cylch gorchwyl; a
        - darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch yn gyffredinol.

3. **Polisïau ehangach Llywodraeth Cymru a chyllid yn ystod y flwyddyn**

    Y wybodaeth ddiweddaraf am:

- ddyraniadau cyllid perthnasol, gan gynnwys:
  - dyraniadau cyllid yn ystod y flwyddyn ym mis Ionawr a mis Chwefror 2018 i CCAUC fel y nodir yn yr adolygiad o lythyr cylch gwaith CCAUC ym mis Mawrth 2018 gan Lywodraeth Cymru;
  - dyraniadau yn ystod y flwyddyn i ddarparwyr addysg bellach; ac
  - unrhyw gyllid pontio gan yr UE.
- cynnydd gyda'r gwaith o ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) yn sgil yr ymgynghoriad yn y gwanwyn a'r haf, ac esboniad o'r camau nesaf, gan gynnwys y camau a gymerwyd i:
  - ymgysylltu â rhanddeiliaid a
  - thrafod opsiynau; a'r
  - amserlen ar gyfer deddfwriaeth.
- cyfle cyfartal ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a chamau i hyrwyddo addysg uwch ymhlith y grwpiau hyn;
- camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn cefnogi ac yn hyrwyddo llesiant eu myfyrwyr; a
- safbwynt Llywodraeth Cymru ar ailgyflunio addysg uwch.

4. **Darparu**

- Y cynlluniau a'r systemau sydd ar waith i sicrhau bod timau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi addysg cyn ac ar ôl 16 oed yn cydweithio ar bolisïau Llywodraeth Cymru ac yn cydlynu'r gwaith o weithredu'r polisïau hynny.

**Note for Children, Young People and Education Committee Inquiry**

The following information providing a comparison between the number of EU domiciled and international domiciled UCAS main scheme **applications** to Welsh, and **English** higher education providers was provided by HEFCW to the Children, Young People and Education Committee Inquiry at its meeting on 18 July 2018:

- EU (excluding UK) domiciled **applications** to Welsh institutions have decreased by 8% while EU (excluding UK) domiciled **applications** to English institutions have increased by 2%
- Non EU domiciled **applications** to Welsh institutions have decreased by 9%while non EU domiciled **applications** to English institutions have increased by 7%

This document seeks to provide a comparison between the number of EU domiciled and non EU domiciled applicants to Welsh, **Scottish** and **Northern Irish** higher education providers as requested at the meeting referred to above. All figures relate to the number of **applicants** or **applications** to UCAS main scheme courses in 2018 by the deadline of 30th June and are compared with figures for the previous year. All figures are taken from the UCAS data release of 12th July 2018[1]. Differences between **applicants** and **applications** are explained in the notes section.

**Applicants**

| Country of provider | Domicile | 2017 | 2018 | Change from 2017 | Percentage change |
|---|---|---|---|---|---|
| Wales | UK | 59,270 | 55,590 | -3,680 | -6% |
| | EU (excluding UK) | 5,290 | 4,770 | -520 | -10% |
| | Non EU | 7,630 | 7,060 | -570 | -7% |
| | All domiciles | 72,200 | 67,420 | -4,780 | -7% |
| England | UK | 468,300 | 450,550 | -17,750 | -4% |
| | EU (excluding UK) | 42,080 | 42,830 | 750 | 2% |
| | Non EU | 69,020 | 73,570 | 4,550 | 7% |
| | All domiciles | 579,410 | 566,950 | -12,460 | -2% |
| Northern Ireland | UK | 20,490 | 19,820 | -670 | -3% |
| | EU (excluding UK) | 1,710 | 1,760 | 50 | 3% |
| | Non EU | 2,120 | 2,150 | 30 | 1% |
| | All domiciles | 24,330 | 23,720 | -610 | -3% |
| Scotland | UK | 85,730 | 84,680 | -1,050 | -1% |
| | EU (excluding UK) | 19,090 | 18,810 | -280 | -1% |
| | Non EU | 17,690 | 19,230 | 1,540 | 9% |
| | All domiciles | 122,500 | 122,730 | 230 | 0% |
| UK | UK | 529,620 | 511,460 | -18,160 | -3% |
| | EU (excluding UK) | 49,250 | 50,130 | 880 | 2% |
| | Non EU | 70,830 | 75,380 | 4,550 | 6% |
| | All domiciles | 649,700 | 636,960 | -12,740 | -2% |

Source: UCAS 30 June Deadline 2018 press release, Applicants (I.7)

[1] https://www.ucas.com/corporate/news-and-key-documents/news/english-18-year-olds-are-more-likely-ever-apply-university

- Between 2017 and 2018, the number of EU (excluding UK) domiciled **applicants** to Welsh institutions has decreased by 10% (from 5,290 to 4,770), to Scottish institutions has reduced by 1% (from 19,090 to 18,810) and to institutions in Northern Ireland, has increased by 3% (from 1,710 to 1,760).

- For the same period, the number of non EU domiciled **applicants** to Welsh institutions has decreased by 7% (from 7,630 to 7,060), to Scottish institutions has increased by 9% (from 17,690 to 19,230) and to institutions in Northern Ireland, has increased by 1% (from 2,120 to 2,150).

### Applications

| Country of provider | Domicile | 2017 | 2018 | Change from 2017 | Percentage change |
|---|---|---|---|---|---|
| Wales | UK | 86,840 | 82,180 | -4,660 | -5% |
| | EU (excluding UK) | 7,590 | 6,960 | -630 | -8% |
| | Non EU | 8,740 | 7,970 | -770 | -9% |
| | All domiciles | 103,170 | 97,110 | -6,060 | -6% |
| England | UK | 1,887,430 | 1,806,820 | -80,610 | -4% |
| | EU (excluding UK) | 158,540 | 162,160 | 3,620 | 2% |
| | Non EU | 274,830 | 294,620 | 19,790 | 7% |
| | All domiciles | 2,320,800 | 2,263,600 | -57,200 | -2% |
| Northern Ireland | UK | 56,470 | 54,510 | -1,960 | -3% |
| | EU (excluding UK) | 2,980 | 3,120 | 140 | 5% |
| | Non EU | 2,240 | 2,260 | 20 | 1% |
| | All domiciles | 61,690 | 59,890 | -1,800 | -3% |
| Scotland | UK | 238,170 | 234,870 | -3,300 | -1% |
| | EU (excluding UK) | 45,490 | 45,110 | -380 | -1% |
| | Non EU | 24,520 | 26,530 | 2,010 | 8% |
| | All domiciles | 308,180 | 306,520 | -1,660 | -1% |
| UK | UK | 2,268,910 | 2,178,390 | -90,520 | -4% |
| | EU (excluding UK) | 214,580 | 217,350 | 2,770 | 1% |
| | Non EU | 310,340 | 331,380 | 21,040 | 7% |
| | All domiciles | 2,793,830 | 2,727,120 | -66,710 | -2% |

Source: UCAS 30 June Deadline 2018 press release, Applications (I.5.2 to I.5.23)

- Between 2017 and 2018, the number of EU (excluding UK) domiciled **applications** to Welsh institutions has decreased by 8% (from 7,590 to 6,960), to Scottish institutions has decreased by 1% (from 45,490 to 45,110) and to institutions in Northern Ireland has increased by 5% (from 2,980 to 3,120).

- For the same period, the number of non EU domiciled **applications** to Welsh institutions has decreased by 9% (from 8,740 to 7,970), Scottish institutions has increased by 8% (from 24,520 to 26,530) and to institutions in Northern Ireland, has increased by 1% (from 2,240 to 2,260).

***Notes***
**Applicant** - A person who has made an application in the UCAS system during the cycle reported (including applications for deferred entry). Records of prior acceptance (RPAs) are excluded.

**Application -** An application to a course at a provider made by an applicant in the UCAS main scheme. Applicants may make up to five main scheme applications.

**Country of provider -** An applicant may be counted once for each provider country they have applied to in the main scheme. If an applicant has applied to providers in multiple countries then the applicant is counted once within each country of provider applied to.

**Main scheme** - The main UCAS application scheme through which up to five providers/courses can be applied to. This opens in September and closes to new applications on 30 June the following year.

**Calculations** – the change from 2017 and the percentage change have been calculated using rounded figures and therefore may differ from calculations using unrounded data.

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Vice-Chancellor's Office

Swyddfa'r Is-Ganghellor

**Cardiff University**
Room 0.45, Main Building
Park Place
Cardiff
CF10 3AT, Wales, UK

Tel +44(0)29 2087 0219
Email deLeeuwN@cardiff.ac.uk

www.cardiff.ac.uk

**Prysgol Caerdydd**
Ystafell 0.45, Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3AT, Cymru, DU

Ffôn +44(0)29 2087 0219
E-bost deLeeuwN@caerdydd.ac.uk

www.caerdydd.ac.uk

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales

6 Awst 2018

Annwyl Ms Neagle,

**Ymchwiliad i Effaith Brexit ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

Hoffai Prifysgol Caerdydd ddiolch i chi am y cyfle i roi tystiolaeth ychwanegol i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Yn ystod y sesiwn tystiolaeth gyntaf ar 12 Gorffennaf 2018, fe wnaethom drafod yr effaith y gallai Brexit ei chael ar letyau Prifysgol Caerdydd a gallu'r Brifysgol i gynnal cynadleddau rhyngwladol. Fel rhan o'r drafodaeth honno nodais fy mod yn bwriadu ysgrifennu atoch gyda manylion ychwanegol am letyau. I'r perwyl hwnnw, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor.

Mae gan Brifysgol Caerdydd bolisi o warantu llety i bawb sydd wedi cael cynnig 'cadarn' neu 'yswiriant' ar gyfer blwyddyn gyntaf eu hastudiaethau. Gan ddibynnu ar faint o le sydd ar gael, gallai rhai myfyrwyr israddedig sy'n cyrraedd drwy'r broses glirio gael gwarant o le hefyd. Mae gan Brifysgol Caerdydd bolisi hefyd o warantu llety ar gyfer ôl-raddedigion tramor ac o'r UE.

Bob mis Ionawr rydym yn adolygu nifer y lleoedd sydd eu hangen arnom i gyflawni'r polisi hwnnw ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Yn ystod yr adolygiad rydym yn ystyried targed recriwtio'r Brifysgol a'r galw a ragwelir ar gyfer lletyau'r Brifysgol yn seiliedig ar sesiynau blaenorol.

Yna, rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa o fis Ionawr i fis Medi yn unol ag unrhyw newidiadau. Os yw'r cyfrifiadau'n dangos nad oes gennym ddigon o ystafelloedd ar gyfer myfyrwyr sydd â gwarant o le yn un o breswylfeydd y Brifysgol, rydym yn caffael llety yn y sector preifat i lenwi'r bwlch.

The Queen's Anniversary Prizes For Higher and Further Education 2015

Investors in People

Athena SWAN Silver Award

QAA Cymru UK Quality Assured Sicrwydd Ansawdd y DU

Registered Charity No. 1136855
Elusen Gofrestredig Rhif. 1136855

Dyma nifer y lleoedd a ddarparwyd rhwng 2013/14 a 2017/18:

- 2013/14
    - 5356 o leoedd yn lletyau'r Brifysgol
    - 221 o ystafelloedd yn y sector preifat
- 2014/15
    - 5538 o leoedd yn lletyau'r Brifysgol
    - 300 o ystafelloedd yn y sector preifat
- 2015/16
    - 5536 o leoedd yn lletyau'r Brifysgol
    - 247 o ystafelloedd yn y sector preifat
- 2016/17
    - 5536 o leoedd yn lletyau'r Brifysgol
    - 247 o ystafelloedd yn y sector preifat
- 2017/18
    - 5536 o leoedd yn lletyau'r Brifysgol
    - 395 o ystafelloedd yn y sector preifat

Nid yw'n bosibl nodi faint yn union o fyfyrwyr sydd mewn llety gan fod y sefyllfa'n newid o un flwyddyn i'r nesaf; mae sawl carfan yn dechrau yn ystod y flwyddyn academaidd a gall myfyrwyr dynnu yn ôl, er enghraifft. Rydym yn monitro ein swydd wag yn seiliedig ar ein cyfnod preswyl safonol, sy'n cyfateb i ddyddiadau semester safonol y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n astudio ar y Prif Gampws.


Fodd bynnag, gallwn roi'r cyfraddau meddiant cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd academaidd, gan gynnwys ystafelloedd ychwanegol mewn neuaddau preswyl sector preifat yr ydym wedi eu caffael bob blwyddyn.

- 98% yn 2013/14
- 97% yn 2014/15
- 98% yn 2015/16
- 97% yn 2016/17
- 93% yn 2017/18

Mae'r cyfrifiadau presennol ar gyfer 2018/19 yn dangos na fydd angen unrhyw ystafelloedd sector preifat ar Brifysgol Caerdydd i ychwanegu at ein darpariaeth lletyau.

Cysylltwch â mi ar bob cyfrif os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am y Brifysgol a'i gweithgareddau.

Yn gywir,



Yr Athro Nora de Leeuw
Dirprwy Is-Ganghellor, Rhyngwladol ac Ewrop

# Eitem 5.17

CYPE(5) -24-18 – Papur i'w nodi 17

Llythyr oddi wrth Iechyd Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn dilyn y sesiwn graffu ar 5 Gorffennaf

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

13 September 2018

Kirsty Williams
Cabinet Secretary for Education
Welsh Government

Dear Kirsty

**Revised eligibility criteria for free school meals in Wales due to the rollout of Universal Credit**

I am writing with regard to the Welsh Government's proposals to amend the eligibility criteria for free school meals, which it has identified as necessary due to the roll out of Universal Credit in Wales. I understand that you are currently consulting on your proposals, and that the consultation is due to end tomorrow.

You will be aware that concerns relating to the proposals have been raised with me by the Children's Society. I also understand that there may be opposition to the proposals from other children's organisations, although I (or the Committee) have not yet seen these.

Due to summer recess and earlier commitments, the Committee has been unable to formally consider this matter to date, but I do think this is something the Committee may want to consider and provide views on ahead of any regulations that come forward.

I appreciate that the consultation will have formally ended before the Committee has had opportunity to consider the proposals, but I aim to discuss this with the Committee at our meeting on 20 September, which will be our first meeting back after recess. I will, of course, then let you know the Committee's initial views on the proposals.

Yours sincerely

**Lynne Neagle AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565